
Newidiadau arfaethedig i'r gofynion ar gyfer rhaglennu ar BBC Radio 5 Live a BBC Radio 2 a rhaglennu sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol

Ymgynghoriad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'r
Drwydded Weithredu

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 18 Ionawr 2023

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	7
3. Cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live	11
4. Cwota cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2	15
5. Rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	18

Atodiad

A1. Amodau Arfaethedig y Drwydded Weithredu	29
A2. Fframwaith Cyfreithiol	36
A3. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	39
A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	42
A5. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori	45
A6. Taflen glawr yr ymgynghoriad	46
A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad	47

1. Trosolwg

- 1.1 Mae cynulleidfaoedd yn rhan annatod o gylch gwaith y BBC. Er bod y ffordd y mae'r BBC yn darparu ar eu cyfer yn newid, mae'n rhaid i'r BBC barhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, ac ar yr un pryd esbonio'r newidiadau hynny'n llawn ac yn glir. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried a oes angen diweddarau Trwydded Weithredu'r BBC er mwyn i'r BBC fwrw ymlaen â rhai o'i chynlluniau.

Wrth i'r BBC drawsnewid ei gwasanaethau, mae'n rhaid iddi barhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa

- 1.2 Mae'r BBC yn wynebu marchnad a hinsawdd economaidd heriol. Mae pobl yn symud yn raddol tuag at wasanaethau ar-lein er mwyn gwyllo a gwrandao ar gynnwys, a cheir cystadleuaeth ddwys o hyd am amser cynulleidfaoedd, yn enwedig gan gwmnïau byd-eang sydd a ariennir yn dda. Ochr yn ochr â hyn, mae'r BBC yn wynebu heriau ariannol o ganlyniad i bwysau ar ei chyllid o ffi'r drwydded yn ogystal â chostau cynhyrchu cynyddol a phwysau chwyddiant. Mae'r BBC wedi dweud y bydd hyn yn creu bwch cyllido blynyddol o £400m o 2027 ymlaen.
- 1.3 Mae hyn oll yn rhoi pwysau ar allu'r BBC i gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, ac yn golygu bod yn rhaid i'r BBC newid. Ym mis Mai fe nododd ei strategaeth i fod yn sefydliad '[Digidol yn Gyntaf](#)', ac yn ddiweddar mae wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau am sut y bydd hyn yn edrych yn ymarferol a sut y disgwylir i rai gwasanaethau gael eu heffeithio.
- 1.4 Rydym yn cydnabod yr angen i'r BBC drawsnewid a'i fod yn ofynnol felly iddi wneud dewisiadau a chyfaddawdau anodd, na fydd pob un ohonynt yn cael eu croesawu gan bob cynulleidfa. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi bod yn glir ein bod yn disgwyl i'r BBC barhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa. Wrth i gynlluniau Digidol yn Gyntaf y BBC ddatblygu ac mae'n canolbwyntio mwy ar ei harlwy ar-lein, ni ddylai adael cynulleidfaoedd llinol ar eu hôl. Bydd hefyd angen iddi barhau i ddarparu ystod eang o gynnwys pwysig, gan gynnwys cynnwys lleol. Byddwn ni'n craffu ar gynlluniau'r BBC wrth iddynt ddatblygu, nid yn unig i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Drwydded Weithredu, ond hefyd sut maen nhw'n debygol o effeithio ar gynulleidfaoedd ac ar allu'r BBC i gyflawni ei chylch gwaith.

Mae angen i'r BBC wneud llawer mwy i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ynglŷn â newidiadau i'w chynnwys a'i gwasanaethau

- 1.5 Mae cynulleidfaoedd yn talu am y BBC drwy ffi'r drwydded, ac mae eu hyder yng ngallu'r BBC i ymateb i'r heriau mae'n eu hwynebu'n hollbwysig. Mae angen felly i'r BBC fod yn fanwl ac yn glir wrth ddisgrifio ei strategaeth a'i chynlluniau, gan esbonio'n llawn beth mae'r rhain yn ei olygu yn ymarferol o ran darparu cynnwys a gwasanaethau i

gynulleidfaoedd, a dangos sut y bydd yn parhau i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yng ngoleuni newidiadau arfaethedig. Yn rhy aml, mae'r BBC yn rhyddhau gwybodaeth fesul tipyn yn hytrach na chyfathrebu'n agored ac yn rhagweithiol gyda chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid, a gydag Ofcom fel ei rheoleiddiwr.

I alluogi trawsnewidiad y BBC, rydym bellach yn ystyried newidiadau pellach i'n Trwydded Weithredu arfaethedig

- 1.6 Er mwyn cefnogi'r BBC i drawsnewid, rydym yn cydnabod bod angen newid y ffordd yr ydym yn rheoleiddio'r BBC hefyd. Ym mis Mehefin 2022, bu i ni nodi cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd i'r BBC. Bu i ni gynnig ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC yn llawn, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu sut orau i gyrraedd cynulleidfaoedd (gan gynnwys dileu rhai cwotâu), ac i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi mwy o wybodaeth am ei chynlluniau a'i darpariaeth yn ei Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol. Bu i ni gynnig cadw cwotâu mewn meysydd lle'r oeddem yn eu hystyried yn angenrheidiol, er enghraifft i ddiogelu naws unigryw a newyddion a materion cyfoes.
- 1.7 Wrth ymateb i'n hymgyngoriad, gofynnodd y BBC i ni wneud newidiadau pellach i'r Drwydded Weithredu er mwyn iddi roi newidiadau penodol i'w ddarpariaeth o ran cynnwys ar waith. Yn gyntaf, mae'r BBC wedi gofyn i Ofcom ostwng cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live o 75% i 70%. Yn ail, mae wedi gofyn i ni ddileu'r cwota ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2 a rhoi gofyniad yn ei le i'r BBC nodi ei chynlluniau ar gyfer cerddoriaeth fyw yn ei Chynllun Blynyddol ac adrodd ar ei darpariaeth cerddoriaeth fyw yn ei Hadroddiad Blynyddol. Yn olaf, mae'r BBC wedi gofyn am ostyngiad yn ei gwota ar gyfer cynnwys newyddion ac nad yw'n newyddion ar y gwasanaethau optio allan.¹

¹ Gwasanaeth optio allan yw amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol sianel BBC (er enghraifft, BBC Two Wales)

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig derbyn y cais gan y BBC am ostwng y cwota ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar Radio 5 Live o 75% i 70%. Byddai hyn yn galluogi i'r BBC ddarlledu rhywfaint o gynnwys chwaraeon ychwanegol, a fyddai'n helpu i ymestyn ei chyrhaeddiad ymhlith pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynulleidfaoedd iau. Mae pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is ymhlith y cynulleidfaoedd sy'n llai bodlon ar y BBC a bu dirywiad yn nefnydd cynulleidfaoedd ifainc o'r BBC. Mae'n hollbwysig i lwyddiant hir dymor y BBC ei bod yn meithrin cysylltiadau cryfion â phob cynulleidfa.

Rydym yn cynnig gwrthod y cais gan y BBC am ddileu'r cwota ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2. Mae cerddoriaeth fyw yn elfen allweddol o naws unigryw BBC Radio 2, ac mae'n bwysig i'w ddiogelu drwy gwotâu. Fodd bynnag, rydym yn cynnig diwygio'r cwota fel ei fod yn targedu cerddoriaeth sy'n wirioneddol fyw neu newydd ac wedi'i recordio'n arbennig, ac yn eithrio ailddarllediadau, gan ganolbwyntio felly ar yr hyn y mae'r BBC wedi dweud yw'r cynnwys cerddoriaeth fyw mwyaf gwerthfawr i gynulleidfaoedd. O dan y cwota newydd arfaethedig, mae'n ofynnol i'r BBC ddarlledu 68 awr o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig, gan eithrio ailddarllediadau, ym mhob Blwyddyn Ariannol.

Rydym yn cynnig derbyn y cais gan y BBC i ostwng cwotâu penodol ar gyfer rhaglennu ar wasanaethau optio allan y BBC. Byddai'r newidiadau i'r cwotâu newyddion ar wasanaethau optio allan y BBC yn ei galluogi i gynyddu ei buddsoddiad mewn newyddion ar-lein, gan adlewyrchu at ble y mae cynulleidfaoedd yn troi'n gynyddol am eu cynnwys newyddion. Byddai'r newidiadau hefyd yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i'r BBC wneud mân addasiadau i hyd ei rhaglennu a'u hamserlennu er mwyn ymateb i anghenion cynulleidfaoedd, yn ogystal ag amrywiadau yn y cylch newyddion.

Mae'r BBC hefyd wedi gofyn am newidiadau i gwotâu yn ymwneud â chynnwys nad yw'n newyddion ar y gwasanaethau optio allan. Mae wedi dweud ei bod am drawsnewid ei harlwy materion cyfoes ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr, gan ddisodli ei raglen materion cyfoes i Loegr *We Are England* gyda rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwilol, a fydd yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer ar-lein, teledu a radio. Mae hwn yn gynnwys pwysig, ond rydym o'r farn y dylai fod gan y BBC yr hyblygrwydd i arloesi o ran ei dull o'i ddarparu.

Mae'r BBC hefyd eisiau gwella ei rhaglennu ar gyfer y Gwledydd trwy fuddsoddi'n gynyddol mewn cynnwys lleol o ansawdd uchel ag effaith sylweddol sydd i'w ddangos ar y rhwydwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen gostyngiad sylweddol ym maint y comisiynau cyllideb is ond hynod unigryw a gynhyrchir yn benodol ar gyfer gwasanaethau optio allan y gwledydd. Rydym wedi ystyried hyn yn erbyn y manteision y mae gan strategaeth newydd y BBC y potensial i'w cyflwyno. I gynulleidfaoedd, gall yr ymagwedd hon bortreadu a chynrychioli cymunedau ar draws y DU yn well trwy gynnwys a gomisiynir yn lleol, ac argaeledd rhaglenni lleol o ansawdd uchel ar gyfer y DU i gyd yn ogystal â'r Gwledydd. I gynhyrchwyr lleol, gall greu mwy o fuddsoddiad a'r cyfle i ymgymryd â chomisiynau mwy, gan i'r BBC ddweud y bydd ei hymagwedd yn golygu y bydd cyllidebau uwch ar gael i gomisiynwyr lleol.

Wrth ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, rydym yn bwriadu derbyn y newidiadau a gynigiwyd gan y BBC. Er hynny, rydym yn glir bod yn rhaid i'r BBC barhau i ddarparu arlwy eang yn lleol ar gyfer cynulleidfaoedd a chyflawni'r cynlluniau a nodwyd ganddo yn y cynigion. Rydym felly yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu gwybodaeth ychwanegol am ei chynnig o ran cynnwys i gynulleidfaoedd yn y Gwledydd yn ei Chynllun Blyneddol, ac adrodd ar ei berfformiad yn ei Hadroddiad Blyneddol. At hynny, mae Ofcom yn monitro perfformiad y BBC yn agos ac at y diben hwnnw yn ystyried ystod o ddata ymchwil a chynulleidfa, gan gynnwys data boddhad cynulleidfaoedd. Pe baem yn gweld bod y BBC wedi methu â darparu i gynulleidfaoedd yn y Gwledydd, ni fyddem yn petruso cyn camu i'r adwy ac adolygu'r cwota.

Y camau nesaf

Rydym yn awr yn gwahodd pobl sydd wedi eu heffeithio neu sydd â diddordeb i roi eu barn ar y cynigion hyn y mae'n rhaid eu cyflwyno erbyn 18 Ionawr. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion cyn dod i'n penderfyniad terfynol.

2. Cefndir

Y cais gan y BBC

- 2.1 Ym mis Mehefin 2022, bu i Ofcom ymgynghori ar Drwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC², i ddod i rym o fis Ebrill 2023. Ym mis Hydref 2022, cyflwynodd y BBC ei hymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys cais i Ofcom am wneud nifer o newidiadau pellach i'w Thrwydded Weithredu ("y Cais").
- 2.2 I roi gwybod i'n hasesiad o'r Cais, fe ofynnwn ni i'r BBC ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol trwy gyfres o gyfnewidiadau. Cyflwynodd y BBC fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cais ym mis Tachwedd 2022 i gymryd yr wybodaeth bellach yr oedd wedi'i darparu i ystyriaeth. [Mae fersiwn anghyfrinachol o'r Cais a chyflwyniad ychwanegol ar y cynigion gan y BBC mewn perthynas â'i chwotâu cenedlaethol a rhanbarthol nad ydynt yn newyddion](#) ar gael ar ein gwefan.
- 2.3 Yn gryno, hoffai'r BBC i'r newidiadau canlynol gael eu gwneud i'w Thrwydded Weithredu:
- Gostyngiad yng nghyfran y newyddion a materion cyfoes mae'n ofynnol iddi ei darlledu ar BBC Radio 5 Live o 75% i 70% o gyfanswm yr allbwn;
 - Disodli'r cwota am isafswm o oriau cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2 gyda gofynion tryloywder iddi nodi ei chynlluniau ar gyfer cerddoriaeth fyw ar yr orsaf ac adrodd ar gyflwyniad ac effaith y cynlluniau hynny ochr yn ochr â'i hadroddiad blynyddol; a
 - Gostyngiadau yn lefelau pum cwota sy'n cwmpasu rhaglennu o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol, gan gynnwys newyddion a chynnwys nad yw'n newyddion.

Ein hymagwedd

- 2.4 Fel rhan o'n gwaith o reoleiddio'r BBC, mae'n ofynnol o dan y Siarter³ a'r Cytundeb⁴ i bennu Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC. Mae'r Drwydded Weithredu yn cynnwys set o amodau rheoleiddio yr ydym yn eu hystyried yn briodol i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Chenhadaeth⁵ ac yn hyrwyddo ei Dibenion Cyhoeddus⁶, i sicrhau darpariaeth allbwn a gwasanaethau unigryw a bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu gwasanaethu'n

² Ofcom, 2022. [Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC](#).

³ [Y Siarter](#).

⁴ [Y Cytundeb](#).

⁵ Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (erthygl 5 y Siarter).

⁶ Dibenion Cyhoeddus y BBC yw 1) darparu newyddion a gwybodaeth diduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; 2) cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oedran; 3) dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw; 4) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y DU; a 5) adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd (erthygl 6 y Siarter).

dda.⁷ Fe wnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf ym mis Hydref 2017⁸ ac mae wedi'i diwygio wedyn ar sawl achlysur.⁹

- 2.5 Ym mis Mehefin 2022, bu i ni gyhoeddi adolygiad ar "[Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC](#)", gan gynnwys ymgynghoriad ar Drwydded Weithredu newydd ("Ymgynghoriad mis Mehefin"). Bu i ni esbonio, ers i ni bennu'r Drwydded Weithredu gyntaf yn 2017, bod tirwedd y cyfryngau wedi newid yn sylweddol, gyda chynulleidfaoedd bellach yn treulio llawer mwy o amser yn defnyddio gwasanaethau ar-lein. Yn y cyfamser mae costau cynhyrchu ar gynydd o ganlyniad i fwy o gystadleuaeth dros weithwyr medrus a gofod stiwdio, y pandemig Covid-19, a phwysau chwyddiant cyffredinol.¹⁰ O dan ei setliad diweddar gyda Llywodraeth y DU, bydd ffi'r drwydded yn cael ei chadw ar ei lefel bresennol tan 2024 ac yna bydd yn codi'n unol â chwyddiant (CPI) tan ddiwedd cyfnod y Siarter.¹¹ Gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth, mae'r [BBC wedi dweud y bydd hyn yn creu bwlch ariannol blynyddol o £400m erbyn 2027](#), yr ydym yn cydnabod y bydd yn arwain at ddewisiadau ariannol anodd yn y blynyddoedd i ddod.
- 2.6 Wrth geisio ymdrin â'r heriau hyn, disgrifiodd y BBC ei strategaeth i fod yn sefydliad '[Digidol yn Gyntaf](#)' ym mis Mai 2022. Mae wedi dweud y bydd hyn yn cynnwys dargyfeirio adnoddau i raglenni newydd ar BBC iPlayer a fydd hefyd yn denu buddsoddiad trydydd parti ychwanegol, symud newyddion lleol a rhanbarthol ac allbwn materion cyfoes tuag at ddigidol, symud adnoddau o newyddion darlledu i newyddion digidol ac ar-lein, [trawsnewid ei gwasanaethau lleol yn Lloegr](#) a buddsoddi mwy mewn datblygu ei gwasanaethau ar-lein. Mae'r BBC hefyd yn ceisio cynyddu ei ôl troed y tu allan i Lundain drwy ei gynllun '[Ar draws y DU](#)' sy'n cwmpasu 2022-2027 ac yn anelu at symud £700m o wariant allan o Lundain. Nod y cynllun yw gwneud y BBC yn sefydliad DU gyfan go iawn drwy ehangu ei phresenoldeb yn y gwledydd a'r rhanbarthau, symud staff allan o Lundain a sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u dosbarthu'n ehangach.
- 2.7 Bu i ni ddweud bod angen i fframwaith rheoleiddio'r BBC gadw i fyny â'r hinsawdd newidiol y mae'r BBC yn gweithredu ynddi, ac amlinellu newidiadau arfaethedig i'n gwaith rheoleiddio, gan gynnwys Trwydded Weithredu newydd. Roedd hyn yn ymgorffori tair prif egwyddor er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd yn effeithiol:
- **Ymgorffori darpariaeth ar-lein y BBC:** Cynigiwyd cynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC yn llawnach o fewn y Drwydded er mwyn i ni i ddwyn y BBC i gyfrif ar draws ei hystod lawn o wasanaethau wrth i gynulleidfaoedd symud fwyfwy ar-lein.

⁷ Erthygl 46(3) y Siarter.

⁸ Ofcom, 2017. [Trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus DU y BBC](#), dyma'r fersiwn gwreiddiol o'r Drwydded Weithredu heb unrhyw ddiwygiadau.

⁹ Ar gyfer y fersiwn ddiweddaraf o'r Drwydded Weithredu a rhestr o newidiadau gweler [tudalen we'r Fframwaith Gweithredu](#).

¹⁰ Yn ôl data gan ddarlledwyr, y gwariant cyfartalog yr awr ar raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyntaf (PSB) a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn y DU yn 2021 oedd tua £82,500, o'i gymharu â £80,000 yn 2019.

Canfu arolwg [Indie Survey 2022](#) Broadcast i 92% o gwmnïau cynhyrchu annibynnol adrodd bod eu costau rhwng 10% a 25% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

¹¹ Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o ffi'r drwydded erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol.

- **Galluogi mwy o hyblygrwydd:** Cynigiwyd y dylai'r Drwydded roi mwy o gyfle i'r BBC bennu'r ffordd orau o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd drwy ddisodli rhai cwotâu â gofynion tryloywder, a chadw eraill lle bo angen i ddiogelu nawws unigryw a newyddion a materion cyfoes.
 - **Gofynion tryloywder cynyddol ar gyfer y BBC:** Cynigiwyd cyflwyno gofynion tryloywder newydd i'r BBC nodi gwybodaeth benodol o fewn ei Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol, gan gynnwys ei chynlluniau ar gyfer oriau o allbwn lle rydym yn bwriadu dileu cwotâu. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder fel y gall cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid deimlo'n hyderus am allu'r BBC i gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus, a chan alluogi Ofcom i gamu i ffwrdd o reoleiddio manwl.
- 2.8 Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ymatebion i Ymgynghoriad mis Mehefin, ac wedi asesu cais y BBC am newidiadau pellach yn erbyn cefndir yr egwyddorion a'r cynigion a nodwyd gennym yn ymgynghoriad mis Mehefin. Er hwylustod, rydym wedi cyfeirio at y Drwydded bresennol sydd mewn grym ar ddyddiad yr ymgynghoriad hwn, a'r Drwydded arfaethedig, yr ymgynghorwyd arni ym mis Mehefin.
- 2.9 Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio ar gyfer newid y Drwydded Weithredu wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad 2.

Effaith ein cynigion

- 2.10 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Ofcom i gynnal asesiadau effaith os yw ein penderfyniadau polisi yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.¹² Mae'r dadansoddiad a nodir yn y ddogfen hon yn cynnwys asesiad effaith o'r fath at ddibenion y dyletswyddau perthnasol a bennir i Ofcom. Rydym o'r farn bod ein hasesiad arfaethedig o gynigion y BBC yn gymesur ac y bydd yn sicrhau bod Ofcom yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb er budd cynulleidfaoedd am weddill cyfnod y Siarter hon.
- 2.11 Mewn cydymffurfiaeth â'n dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf¹³ a'n dyletswydd o dan y Siarter¹⁴ i roi sylw lle bo hynny'n berthnasol i ddymunoldeb diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU, rydym hefyd wedi ystyried effaith bosibl newidiadau arfaethedig y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gall cynigion sy'n effeithio'n negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol arwain at lai o fuddsoddiad a/neu gwmnïau sy'n ymadael â'r farchnad neu ddim yn ei chyrchu. Gall y fath ddeilliannau beri anfantais i gynulleidfaoedd drwy arwain at lai o ddewis ac ansawdd. Lle bo'n berthnasol, rydym yn trafod effaith cynigion y BBC ymhellach i lawr, ond yn gryno nid ydym o'r farn y bydd cynigion y BBC yn cael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ond pe bai'r BBC yn gwneud newidiadau

¹² Adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf').

¹³ O dan adran 3 y Ddeddf, prif ddyletswydd Ofcom, wrth gyflawni ein swyddogaethau yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.

¹⁴ Erthygl 45(2) y Siarter.

sylweddol yn y dyfodol, byddai angen iddi, ac os oes angen, Ofcom, ystyried effeithiau cystadleuol posib o dan y prosesau presennol.¹⁵

- 2.12 Yn unol â statud mae'n ofynnol i ni asesu effaith bosib ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac arferion ar y grwpiau sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig a ganlyn: oedran, anabledd, rhyw, aillbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.¹⁶ Mae ein hasesiad o effaith bosib y cynigion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn ar bobl sydd â'r nodweddion hyn wedi'i nodi yn Atodiad 3.

Yr ymgynghoriad hwn

- 2.13 Rydym wedi ystyried y Cais ac amlinellu ein hasesiad o gynigion y BBC yn y ddogfen hon. Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ar ein hasesiad a'r newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu, ac yn gwahodd ymatebion erbyn 18 Ionawr 2023. Gweler Atodiad 4 am ragor o wybodaeth ynghylch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
- 2.14 Byddwn yn ystyried ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad hwn ac yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau ar gynigion y BBC ochr yn ochr â'r datganiad ar ein hymgyngoriad [Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC](#) y flwyddyn nesaf. Rydym yn cynnig y dylai unrhyw newidiadau i'r Drwydded ddod i rym ar 1 Ebrill 2023 ac y caiff unrhyw amodau diwygiedig sy'n cael eu mesur yn ôl y flwyddyn galendr yn berthnasol am flwyddyn galendr lawn 2023. Rydym o'r farn mai dyna fyddai'r ffordd fwyaf ymarferol o fonitro cydymffurfiaeth y BBC a'i bod yn cyfateb i gylch adrodd presennol y BBC.

¹⁵ Mae gan y BBC gyfrifoldeb cychwynnol dros ystyried effeithiau cystadleuaeth posib sy'n deillio o newidiadau i'w gwasanaethau. Os yw'r BBC yn cynnig newidiadau i'w hallbwn a'i gwasanaethau y pennir eu bod yn faterol o fewn telerau'r Cytundeb, byddwn yn cynnal asesiad cystadleuaeth cyn y caniateir i'r cynlluniau fynd yn eu blaen.

O ran gweithgareddau parhaus, os oes sail resymol dros gredu bod cyflawniad y BBC o unrhyw un o'i gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gallwn gynnal adolygiad o gystadleuaeth.

¹⁶ Fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

3. Cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live

Y cynnig gan y BBC

- 3.1 Yn unol ag amod 2.13.1 y Drwydded Weithredu bresennol mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau bod o leiaf 75% o allbwn Radio 5 Live ym mhob Blwyddyn Ariannol yn rhaglennu newyddion a materion cyfoes. Fel rhan o'n Hymgyngoriad mis Mehefin, ni wnaethom gynnig unrhyw newidiadau i'r amod hwn.¹⁷ Mae'r BBC bellach wedi gofyn am hyblygrwydd ychwanegol o gwmpas y cwota hwn, gan ganiatáu iddi gyrraedd cynulleidfaoedd a wasanaethir yn llai da gan y BBC ar hyn o bryd, ymateb i'r hyn y mae cynulleidfaoedd ei eisiau mewn perthynas â sylwebu a dadansoddi chwaraeon byw, a bod yn fwy uchelgeisiol yn ei hymrwymiad i ymdrin ag ystod ehangach o gampau. Mae wedi gofyn i Ofcom leihau cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live o 75% i 70%.
- 3.2 Rydym yn crynhoi'r pwyntiau perthnasol y mae'r BBC yn eu gwneud o blaid y gostyngiad hwn isod; gellir gweld ei chynigion llawn yn [ei chais](#):
- i) Bydd cynnig chwaraeon gwell yn cyrraedd cynulleidfaoedd sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol. Er mai gorsaf newyddion a materion cyfoes yw Radio 5 Live yn bennaf, noda'r BBC fod chwaraeon yn perfformio rôl bwysig wrth gyrraedd grwpiau cynulleidfaol sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol megis dynion ifainc a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae'r BBC wedi gweld bod y cynulleidfaoedd hyn yn gymharol llai bodlon ar wasanaethau'r¹⁸ BBC ac yn nodi bod Ofcom wedi'i hannog i wneud mwy i'w gwasanaethu.¹⁹ Dengys dadansoddiad y BBC o ddata RAJAR²⁰ fod dynion, pobl ifanc 15-34 oed a'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol C2 a D²¹ yn fwy tebygol o wrando ar allbwn chwaraeon Radio 5 Live o'i gymharu â'r gwrandäwr cyffredin. Trwy ehangu ei harlwy chwaraeon, mae'r BBC yn dadlau y bydd yn cyrraedd y cynulleidfaoedd hyn sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol yn well.
 - ii) Mwy o hyblygrwydd i ymdrin ag ystod eang o chwaraeon yn fwy helaeth. Mae'r BBC yn bwriadu cynnig mwy o sylwebaeth a dadansoddiad byw ar yr un pryd â chynnal yr arlwy chwaraeon eang presennol. Mae'n dadlau y bydd mwy o hyblygrwydd yn caniatáu iddi wneud y mwyaf o werth ei buddsoddiad presennol mewn hawliau chwaraeon, gan gynnwys mwy o sylwebaeth a dadansoddiad o

¹⁷ Bu i ni gynnig cadw'r amod hwn fel amod 1.13.1 yn Nhrwydded Weithredu ddrافت mis Mehefin 2022.

¹⁸ Yn unol ag amodau 2.44 a 2.45 y Drwydded Weithredu bresennol. BBC, 2022. [Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22](#), t.145.

¹⁹ Ofcom, 2022. [Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21](#), t. 1, 3, 6, 17, 20, 46-47, a 55.

²⁰ RAJAR yw corff swyddogol y diwydiant sy'n gyfrifol am fesur gwrandäwr ar y radio yn y DU.

²¹ Pennir grŵp economaidd-gymdeithasol gan sawl ffactor gan gynnwys incwm a swydd. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau uchaf, A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 a C2 yn y canol ac mae'r grwpiau isaf, D ac E, yn llai tebygol o fod yn rhai cefnog.

amgylch gemau byw allweddol. Pan fydd am fuddsoddi mewn hawliau chwaraeon newydd, bydd yn ceisio cryfhau ei hymrwymiad i ddarparu ystod o gampau, yn enwedig mewn meysydd sy'n gyrru gwerth i gynulleidfaedd sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol.

- iii) Newyddion a materion cyfoes fydd prif ffocws yr orsaf o hyd. Dywed y BBC nad oes ganddi gynlluniau i newid ei rhaglenni newyddion oriau brig yng nghanol yr wythnos, lle mae'n cydnabod bod nifer y gwrandawyr ac awydd y gynulleidfa am newyddion a materion cyfoes yn uchel. Bydd yn defnyddio'r hyblygrwydd ychwanegol ar adegau pan fydd llai o awydd gan y gynulleidfa am newyddion a materion cyfoes dros sain. Mae hefyd yn dweud y bydd yn blaenoriaethu stori sy'n torri drwy symud neu newid cynnwys chwaraeon i roi sylwebaeth ac yn amlygu nifer o enghreifftiau lle mae wedi gwneud hyn yn y gorffennol.
- iv) Effaith ar y farchnad yn debygol o fod yn gyfyngedig. Mae'r BBC yn dadlau bod cystadleuaeth am chwaraeon ar y radio wedi'i yrru'n bennaf gan ddarllediadau byw o'r campau mwyaf poblogaidd. Mae'n dweud nad yw'n bwriadu cynyddu ei chyllidebau hawliau chwaraeon dros sain ac ni fydd yn mynd ar drywydd hawliau gwerth uchel ychwanegol. Pan fydd yn ystyried caffael hawliau newydd, i yrru gwerth i gynulleidfaedd sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol neu ehangu ei hallbwn chwaraeon, maent yn annhebygol o fod mewn meysydd lle ceir cystadleuaeth sylweddol.

Ein hasesiad a'n barn dros dro

- 3.3 Rydym yn ymwybodol o'r angen am sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU, bod ei gwasanaethau'n unigryw a'i bod yn darparu newyddion a gwybodaeth. Rydym hefyd wedi ystyried effaith bosib newidiadau arfaethedig y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 3.4 Mae'n galonogol gweld bod y BBC yn cynnig camau i wella'i harlwy i gynulleidfaedd sy'n llai bodlon a heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn ein [pedwerydd adroddiad blynyddol ar y BBC](#), bu i ni nodi'r angen iddi barhau i esblygu er mwyn bod yn berthnasol i bob cynulleidfa. Mae pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is ymhlith y cynulleidfaedd sy'n llai bodlon ar y BBC a bu dirywiad yn nefnydd cynulleidfaedd ifainc o'r BBC. Mae'n hollbwysig i lwyddiant hir dymor y BBC ei bod yn meithrin cysylltiadau cryfion â phob cynulleidfa. Canfu ein [pumed adroddiad blynyddol ar y BBC](#) fod y BBC yn dal i brofi anhawster wrth ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, a bu i ni gyhoeddi adolygiad o sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is.
- 3.5 Rydym wedi ystyried dadansoddiad y BBC o ddata RAJAR a nodwyd yn ei hymateb ac yn cytuno i hyn ddangos bod dynion, pobl ifanc 15-34 oed a phobl o raddau cymdeithasol C2D yn fwy tebygol o wrando ar gynnwys chwaraeon ar Radio 5 Live na'r gwrandawr cyffredin. Dengys ei dadansoddiad hefyd fod cynulleidfaedd sydd a wasanaethir yn dda sy'n treulio mwy na thridiau'r wythnos yn gwrandao ar sain y BBC yn treulio 2% yn unig o'r amser hwnnw yn gwrandao ar chwaraeon, tra bod cynulleidfaedd sy'n treulio llai na thridiau'r wythnos yn gwrandao ar sain y BBC yn treulio 10% o'r amser hwnnw'n gwrandao ar

chwaraeon. Credwn fod cynnydd bach mewn arlwy chwaraeon Radio 5 Live i'w weld yn ymagwedd resymol at geisio cynyddu cyrhaeddiad yr orsaf i gynulleidfaedd sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol. Byddai'n bosib i ni dracio perfformiad y BBC wrth wasanaethu'r cynulleidfaedd hyn fel rhan o'n rhaglen fonitro barhaus.

- 3.6 Rydym hefyd wedi ystyried yr angen i wasanaethau'r BBC barhau i fod yn unigryw. Fel arfer, darperir naws unigryw ar draws gwahanol wasanaethau a mathau o raglennu ac mae'n bosib y bydd gan wahanol gynulleidfaedd ganfyddiadau gwahanol amdani.²² Fel arfer mae Ofcom yn defnyddio 'basged' o fesurau i edrych ar naws unigryw gwasanaethau a chynnwys y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys: ei chymysgedd o genres ac allbwn, ansawdd yr allbwn hwn, maint y rhaglennu gwreiddiol, a gynhyrchir yn y DU, lefelau cymryd risgiau, arloesi, a'r ystod o gynulleidfaedd y mae'n eu gwasanaethu. O ran naws unigryw BBC Radio 5 Live, nid ydym o'r farn y bydd gostyngiad ymylol o 5% mewn allbwn newyddion a materion cyfoes (sy'n cyfateb i tua wyth awr a hanner yr wythnos) yn effeithio ar naws unigryw yr orsaf. Gan fod 70% o'i raglennu'n newyddion a materion cyfoes a bod gofyniad i ddarparu sylwebaeth fyw ar gyfer o leiaf 20 o gampau, bydd arlwy Radio 5 Live yn parhau i fod yn sylweddol wahanol i ddarparwyr cymaradwy eraill o gynnwys chwaraeon dros sain.
- 3.7 Fel y nodwyd, rydym o'r farn y bydd y gostyngiad yn narpariaeth y cynnyrch newyddion a materion cyfoes yn ymylol, ac y bydd yr orsaf yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth ddarparu'r fath gynnwys i gynulleidfaedd. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu'r ffaith bod y BBC yn cymryd gwrandawyr ac awydd y gynulleidfa am newyddion a materion cyfoes i ystyriaeth wrth ddweud na fydd yn newid ei rhaglennu newyddion oriau brig yng nghanol yr wythnos. Yn ei Chais, mae'n dweud y byddai'n defnyddio'r hyblygrwydd ychwanegol a gynigir gan y newid arfaethedig ar adegau pan fydd llai o awydd gan y gynulleidfa am newyddion a materion cyfoes dros sain.
- 3.8 Rydym yn cytuno â'r BBC fod darllediadau byw o'r campau mwyaf poblogaidd a gwariant cynyddol ar hawliau chwaraeon dros sain yn debygol o gael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar gystadleuaeth am wrando ar chwaraeon. Fodd bynnag, rydym yn nodi sicrwydd y BBC nad yw'n bwriadu cynyddu ei chyllideb hawliau chwaraeon dros sain nac yn mynd ar drywydd hawliau gwerth uchel ychwanegol. Rydym o'r farn nad yw cynnydd o 5% mewn rhaglennu chwaraeon ar Radio 5 Live yn debygol o gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig heb hawliau chwaraeon gwerth uchel ychwanegol. Pe bai'r BBC yn cynyddu ei chyllideb hawliau chwaraeon sain neu ei raglennu chwaraeon y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y cynigion hyn byddai angen iddynt ystyried yr effaith bosib ar gystadleuaeth.

Ein newidiadau arfaethedig i'r drwydded

- 3.9 Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn cynnig lleihau lefel cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live o 75% i 70%.

²² Mae paragraff 2 Atodlen 2 y Cytundeb yn diffinio "allbwn a gwasanaethau unigryw" fel allbwn a gwasanaethau sydd, wrth eu hystyried yn eu cyfanrwydd, yn sylweddol wahanol i ddarparwyr cymaradwy eraill ar draws pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ystod yr oriau brig ac yn gyffredinol, ac ar y teledu, ar radio ac ar-lein, o ran-(a) y cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol; (b) ansawdd yr allbwn; (c) maint yr allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU; (d) lefelau cymryd risgiau, arloesedd, her ac uchelgais creadigol; ac (e) ystod y cynulleidfaedd y mae'n eu gwasanaethu.

- 3.10 Mae'r union ddiwygiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud i'r Drwydded Weithredu yn sgil y Cais a'n hasesiad wedi'u cyflwyno yn Atodiad 1.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo'n bosib.

4. Cwota cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2

Y cynnig gan y BBC

- 4.1 Yn unol ag amod 2.40.3 y Drwydded Weithredu bresennol, mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau bod BBC Radio 2 yn darlledu o leiaf 260 awr o gerddoriaeth fyw ym mhob blwyddyn ariannol. Fel rhan o'n Hymgyngoriad mis Mehefin, ni wnaethom gynnig unrhyw newidiadau i'r amod hwn.²³ Fodd bynnag, mae'r BBC bellach wedi gofyn i ni fabwysiadu ymagwedd ar gyfer y cwota hwn sy'n debyg ag ar gyfer cwotâu genre eraill yn ein Hymgyngoriad mis Mehefin 2022, a'i ddisodli â gofyniad tryloywder er mwyn gwella hyblygrwydd a thryloywder. O dan y cynnig hwn, byddai'r BBC yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2 am y flwyddyn i ddod yn ei Chynllun Blynnyddol ac yn adrodd ar gyflwyniad ac effaith y cynlluniau hynny fel rhan o'i hadrodd blynnyddol.
- 4.2 Rydym yn crynhoi'r pwyntiau perthnasol y mae'r BBC yn eu gwneud o blaid y newid hwn isod; gellir gweld ei chynigion llawn yn [ei chais](#):
- i) Mae pwysau ariannol a chostau uchel yn golygu mai ailddarllediadau yw'r mwyafrif o allbwn cerddoriaeth fyw BBC Radio 2. Mae'r BBC yn nodi y bu'r amod hwn o'r Drwydded Weithredu ar waith a heb ei newid ers 2008, cyn i Ofcom ymgymryd â rheoleiddio'r BBC, a bod angen ei archwilio gan ei fod yn effeithio ar ei gallu i ddarparu gwerth i gynulleidfaoedd. Fe'i bodlonwyd erioed trwy gyfuniad o gerddoriaeth fyw newydd (h.y. perfformiadau byw neu chwarae cerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig i BBC Radio 2 am y tro cyntaf) a cherddoriaeth fyw a ailddarlledir (h.y. recordiadau archif o gyngherddau neu sesiynau byw). O'r 260 awr o gerddoriaeth fyw a ddarlledwyd ar BBC Radio 2 yn 2021/22, roedd 192 awr (74%) yn ailddarllediadau a 68 awr (26%) yn gerddoriaeth fyw newydd. Mae'r BBC yn dadlau bod nifer cynyddol o ailddarllediadau yn ganlyniad anochel i gyfuniad o gwota allbwn sefydlog, cost uchel cerddoriaeth fyw a phwysau ariannol y BBC. Mae'n dweud y bydd cynnal yr amod ar ei ffurf bresennol yn gorfodi BBC Radio 2 i gynyddu'r gyfran o ddeunydd a ailddarlledir ymhellach ar draul cerddoriaeth fyw newydd.
 - ii) Byddai canolbwytio ar gerddoriaeth fyw newydd o fudd i gynulleidfaoedd. Mae'r BBC yn rhestru amrywiaeth o'i harlwy cerddoriaeth fyw newydd yn ei hymateb, gan gynnwys *Sunday Night is Music Night*, *Radio 2 in concert* a'i *Piano Rooms Sessions*. Mae'n cyfeirio at ei hymchwil ei hun o fis Mai 2021 sy'n dangos i tua hanner y gwrandawyr BBC Radio 2 rheolaidd gytuno bod y gwasanaeth yn wych ar gyfer cerddoriaeth fyw ac i dros ddau o bob pump ddweud ei fod yn cynnig cerddoriaeth fyw nad ydynt yn ei chlywed unrhyw le arall.
 - iii) Byddai mwy o hyblygrwydd o fudd i gynulleidfaoedd ac yn gwella'r naws unigryw. Mae'r BBC yn dweud bod BBC Radio 2 wedi'i hymrwymo i ddod â'r gerddoriaeth fyw orau a mwyaf unigryw i gynulleidfaoedd, ac wrth wneud hynny, cefnogi

²³ Bu i ni gynnig cadw'r amod hwn fel amod 3.10.3 yn Nhrwydded Weithredu ddrafft mis Mehefin 2022.

economïau creadigol ar draws y DU. Mae'n dadlau mai'r ffordd orau o ddarparu hyn yw drwy gerddoriaeth wirioneddol fyw neu newydd sydd wedi'i recordio'n arbennig ac nid deunydd a ailddarlledir. Mae'n esbonio bod sesiynau a chyngherddau cerddoriaeth fyw newydd ymhlith y sioeau drutaf fesul awr ddarlledu ar BBC Radio 2 ac y gall hyd yn oed cerddoriaeth fyw a ailddarlledir gostio mwy na llawer o'i rhaglenni eraill. Mae hefyd yn nodi, tra bod cerddoriaeth fyw newydd yn cynhyrchu nifer mawr o wrandawyr ac ymateb da gan y gynulleidfa, mai ailddarllediadau yn aml yw rhai o'r sioeau y gwrandewir lleiaf arnynt ar BBC Radio 2. Gallai'r gyllideb sy'n cael ei gwario ar yr ailddarllediadau gwerth isel hyn gael ei defnyddio ar gyfer rhaglennu mwy unigryw sy'n cael mwy o effaith.

Ein hasesiad a'n barn dros dro

- 4.3 Yn ein Hymgyngoriad mis Mehefin 2022, fe wnaethom amlinellu ein cynigion i gadw cwotâu cerddoriaeth y Drwydded bresennol ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 2 ar eu lefelau presennol. Ystyriwyd bod yr amodau hyn yn allweddol i sicrhau naws unigryw allbwn cerddoriaeth y ddwy orsaf o'i gymharu â gorsafoedd cerddoriaeth eraill. Fodd bynnag, rydym yn agored i ystyried canlyniad anfwriadol cwota cerddoriaeth fyw BBC Radio 2 a'r pwysau ariannol sydd ar y BBC gyda'i gilydd, gan arwain at ostyngiad mewn cerddoriaeth fyw newydd a gorddibyniaeth ar ailddarllediadau. Dylai penderfyniadau amserlennu'r BBC o amgylch cerddoriaeth fyw ar yr orsaf gael eu gyrru gan anghenion y gynulleidfa ac nid dim ond er mwyn cwrdd â chwota, yn enwedig gyda chynnwys sydd efallai ddim yn cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaeodd.
- 4.4 Rhannodd y BBC yr ymchwil a gynhaliwyd ganddi ar allbwn cerddoriaeth fyw BBC Radio 2 ym mis Mai 2021. Canfu i 49% o wrandawyr BBC Radio 2 rheolaidd gytuno (19% yn gryf) bod yr orsaf yn wych ar hyn o bryd ar gyfer cerddoriaeth fyw. Mae'r ffigur hwn yn codi i 76% (41% yn gryf) ymhlith y rhai sydd wedi gwyllo²⁴ neu wrando ar ei chynnwys cerddoriaeth fyw. At hynny, cytunodd 44% o wrandawyr rheolaidd (16% yn gryf) fod BBC Radio 2 yn cynnig "cerddoriaeth fyw nad ydynt yn ei chlywed unrhyw le arall", sy'n codi i 73% (35% yn gryf) ymhlith y rhai sydd wedi gwyllo neu wrando ar ei chynnwys cerddoriaeth fyw. Mae'n amlwg bod cerddoriaeth fyw wedi'i gwerthfawrogi gan wrandawyr BBC Radio 2, ond nid yw'r ymchwil hon yn gwahaniaethu rhwng gwerth cerddoriaeth fyw a ailadroddir a'r hyn sy'n newydd i gynulleidfaeodd. Er y gall fod gwerth pendant mewn cerddoriaeth fyw wedi'i harchifo, yn enwedig os yw'n newydd i rai gwrandawyr, gall maint bythol ostyngol o gerddoriaeth fyw newydd a ychwanegir at yr archif hon achosi iddi sefyll yn stond a cholli perthnasedd. Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod ailddarllediadau'n cael llai o ymateb gan gynulleidfaeodd na cherddoriaeth fyw newydd a'u bod weithiau'n denu rhai o'r cynulleidfaeodd lleiaf ar yr orsaf. Er nad yw'r BBC wedi darparu data penodol ar y pwynt hwn, rydym yn ystyried bwrw ymlaen ar y sail bod cerddoriaeth fyw newydd yn fwy gwerthfawr i gynulleidfaeodd nag ailddarllediadau; er hynny, byddem yn croesawu barn

²⁴ Mae ymchwil y BBC yn cynnwys y rhai sydd wedi gwyllo cerddoriaeth fyw a recordiwyd ar gyfer Radio 2 ar ffurf fideo ar wasanaethau eraill y BBC.

ynghylch a yw hyn yn wir ai beidio. Dylid nodi hefyd bod cyngherddau byw newydd yn cyfrannu at sector cynhyrchu a chreadigol y DU.

- 4.5 Credwn fod rheswm dros barhau i ddiogelu'r maint o gerddoriaeth fyw newydd sydd ar yr orsaf. Mae cyfran sylweddol o gynulleidfaoedd BBC Radio 2 yn gwerthfawrogi ei cherddoriaeth fyw ac yn ei gweld fel pwynt sy'n gwahaniaethu'r orsaf o wasanaethau tebyg. Fel y nodwyd uchod, cynigiwyd cadw holl gwotâu cerddoriaeth BBC Radio 2 oherwydd eu pwysigrwydd o ran sicrhau naws unigryw allbwn cerddorol yr orsaf. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw er budd cynulleidfaoedd i'r cwota presennol arwain at faint gostyngol o gerddoriaeth fyw newydd a chynnydd mewn ailddarllediadau o ganlyniad i'r pwysau ariannol ar y BBC.
- 4.6 Gan hynny, rydym yn cynnig diwygio'r cwota fel ei fod yn eithrio'r cynnwys cerddoriaeth fyw wedi'i hailadrodd a werthfawrogi yn llai gan gynulleidfaoedd a'i fod yn hytrach, yn cwmpasu cerddoriaeth wirioneddol fyw neu gerddoriaeth fyw newydd a recordiwyd yn arbennig. Mae'r BBC wedi rhagweld yr opsiwn hwn yn ei chyflwyniad ac wedi cynnig pennu cwota ar gyfer cerddoriaeth fyw newydd fel 55 awr bob Blwyddyn Ariannol, gan gwmpasu eu lefel allbwn bresennol gyda hyblygrwydd ychwanegol wrth ragweld pwysau ariannol.
- 4.7 Byddem yn nodi bod y BBC wedi darparu 68 awr o gerddoriaeth fyw newydd yn 2021/22 ond nad yw wedi tracio perfformiad hanesyddol yn gyson yn erbyn y metrig hwn. O ystyried i'r BBC ddweud yn ei chynigion y byddai peidio gorfod dibynnu ar ailddarllediadau yn *"rhyddhau cyllid y gellid ei ddefnyddio i ddatblygu a buddsoddi mwy mewn sesiynau cerddoriaeth fyw"*, nid ydym yn cytuno y dylid pennu lefel y fath gwota cerddoriaeth fyw newydd islaw'r ddarpariaeth bresennol. Rydym yn cynnig pennu'r cwota newydd hwn ar lefel sy'n sicrhau'r cyflwyniad presennol o gerddoriaeth fyw newydd a, gyda'r pwysau ariannol ar y BBC mewn golwg, yn annog ail-fuddsoddi'r arian a arbedir o ostwng ailddarllediadau mewn sesiynau a chyngherddau newydd.

Ein newidiadau arfaethedig i'r drwydded

- 4.8 Rydym yn cynnig diwygio amod 2.40.3 fel ei fod ond yn mynnu i BBC Radio 2 ddarlledu cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth a recordir yn arbennig, heb gynnwys ailddarllediadau. Yn unol â'r newid hwn, rydym yn bwriadu pennu lefel y cwota fel 68 awr bob Blwyddyn Ariannol.
- 4.9 Mae'r union ddiwygiad yr ydym yn eu cynnig ei wneud i'r Drwydded Weithredu yn sgil y Cais a'n hasesiad wedi'u cyflwyno yn Atodiad 1.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno gydag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2, gan gynnwys y farn bod cerddoriaeth fyw newydd yn fwy gwerthfawr i gynulleidfaoedd nag ailddarllediadau? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo'n bosib.

5. Rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol

Y cynnig gan y BBC

- 5.1 Wrth osod y cyd-destun ar gyfer ei chynigion, mae'r BBC yn tynnu sylw at y cyhoeddiadau y mae wedi'u gwneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys ei strategaethau *Ar draws y DU* a *Digidol yn Gyntaf*, y bydd ei rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol a ranbarthol yn cael eu heffeithio ganddynt. Mae'n nodi ei fod wedi pennu isafswm targed o 60% o gomisiynau teledu rhwydwaith yn ôl gwariant sydd i'w gwneud y tu allan i Lundain erbyn diwedd y Siarter, y bydd yn tyfu'r ffordd y mae'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ar draws y DU trwy ei theitlau wedi'u sgriptio ac y bydd yn ail-lunio ei gwasanaethau i daro gwell cydbwysedd rhwng newyddion darlledu ac ar-lein ar draws gwledydd a ranbarthau'r DU.
- 5.2 Mae'r BBC yn dadlau y bydd ei strategaeth a'i chynigion cyhoeddedig mewn perthynas â rhaglenni cenedlaethol a ranbarthol yn effeithio ar sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd ar amrywiadau cenedlaethol a ranbarthol BBC One a BBC Two (y cyfeirir atynt hefyd fel 'gwasanaethau optio allan' neu 'optiau'). O ganlyniad, mae wedi gofyn i Ofcom am newidiadau i'r cwotâu canlynol yn y Drwydded Weithredu; fel rhan o'n Hymgyngoriad mis Mehefin, ni wnaethom gynnig unrhyw newidiadau i'r amodau hyn:

Amod (amod Trwydded presennol/ amod yn y Drwydded Weithredu a gynigiwyd ym mis Mehefin 2022)	Cwotâu cyfredol (oriau)	Cwotâu arfaethedig (oriau)
Rhaglennu newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One (2.68 / 4.32)	4,300	3,900
Rhaglennu newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol dros y diwrnod yn ystod yr Orlau Gwyllo Brig ²⁵ ar BBC One (2.68 / 4.32)	2,100	1,700
Rhaglennu nad ydynt yn newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod yr Orlau Gwyllo Brig ar BBC One a Two (2.67.6 / 4.31.4)	557	200
Rhaglennu nad ydynt yn newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol gyfagos â'r Orlau Gwyllo Brig ar BBC One a Two (2.67.8 / 4.31.5)	179	150
Rhaglennu o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One a Two (2.67.2 / 4.31.1)	5,909	5,000

²⁵ Yng Nhrwydded Weithredu'r BBC, mae "Orlau Gwyllo Brig" yn golygu: (a) 18:00 i 22:30 mewn perthynas â'r holl Wasanaethau Teledu Cyhoeddus DU heblaw am BBC Four; a (b) 19:00 i 24:00 mewn perthynas â BBC Four.

- 5.3 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod y cwotâu hyn ac wrth ystyried nhw yn eu cyfarwydd maent yn berthnasol i wasanaethau optio allan gwledydd a rhanbarthau'r BBC.
- 5.4 Mae'r Drwydded bresennol hefyd yn cynnwys cwotâu ar wahân ar gyfer cynnwys nad yw'n newyddion a materion cyfoes ar y gwasanaethau optio allan yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.²⁶ Yn Ymgynghoriad Mehefin 2022, cynigiwyd disodli'r cwotâu penodol hyn ar gyfer y gwledydd gydag amodau cyffredinol a gofynion tryloywder, gan ein bod o'r farn y byddai hyn yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC addasu ei darpariaeth i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, er enghraifft drwy ddarparu mwy neu lai o oriau o raglennu ar wasanaeth penodol, neu gyflwyno cynnwys ar iPlayer i'r rhai sy'n ffafrio gweld cynnwys ar-lein.²⁷
- 5.5 Rydym yn crynhoi'r pwyntiau perthnasol y mae'r BBC yn eu gwneud o blaid y newidiadau i newyddion a chynnwys nad yw'n newyddion ar wahân isod; gellir gweld ei chynigion llawn yn [ei chais](#).

Newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One (Amod Presennol 2.68 / Amod 4.32 yn Nhrwydded arfaethedig mis Mehefin 2022)

- 5.6 Mae'r BBC yn amlinellu'r newidiadau canlynol sy'n effeithio ar y ddau gwota newyddion:
- i) Newidiadau i newyddion lleol yn Lloegr. Ym mis Mai 2022, amlinellodd y BBC gynlluniau i gau gwasanaethau newyddion lleol optio allan Rhydychen a Chaergrawnt a'u cyfuno â South Today a Look East. Os cânt eu gweithredu, byddai'r newidiadau hyn yn rhyddhau arian i'w fuddsoddi mewn newyddion lleol ar-lein a byddent yn golygu gostyngiad o tua 260 awr mewn cyfanswm maint y newyddion teledu lleol bob blwyddyn, 190 ohonynt yn yr Oriau Gwyllo Brig.
 - ii) Newidiadau i hyd ac amserlennu rhaglennu: Mae'r BBC yn nodi ei bod wedi gwneud newidiadau amrywiol i'w hallbwn newyddion sy'n effeithio ar ei chyflwyniad o ran y cwota. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Newid hyd y bwletin newyddion lleol ar BBC One i isafu gorgyffwrdd rhwng y bwletin newyddion lleol a *Newsnight* ar BBC Two: dychwelodd y BBC hyd ei bwletin newyddion lleol 10.30pm ar BBC One i 7 munud ar ôl ei estyn i 11 munud yn ystod y pandemig.
 - Hepgor un o'r chwe bwletin newyddion lleol bob hanner awr yn ystod *BBC Breakfast*, gan fod cynulleidfaoedd yn eu cael yn ailadroddus yn ôl y BBC a'u bod yn gwyllo'n ddigon hir ar gyfartaledd i weld dau fwletin.
 - Newid i drefn y slot newyddion 10.30pm ym mis Chwefror 2022 fel y daw tywydd y DU yn syth ar ôl y newyddion DU a bod y tywydd lleol yn dilyn y newyddion lleol (yn lle darlledu'r newyddion lleol yn syth ar ôl y newyddion

²⁶ Amodau'r Drwydded bresennol 2.78.2, 2.85.2, 2.87, 2.91.2 a 2.93.

²⁷ Ofcom, 2022. [Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC](#), tudalen 79.

DU) a fu'n golygu bod y bwletin newyddion lleol yn dechrau ychydig y tu allan i'r Oriau Gwyllo Brig.²⁸

- 5.7 Mae'r BBC wedi dweud y byddai effaith gronnus y newidiadau hyn yn gyfystyr â gostyngiad o tua 650 awr yn newyddion BBC One sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol bob blwyddyn, gan gynnwys 450 awr yn yr Oriau Gwyllo Brig. Mae'r BBC hefyd wedi nodi, o safbwynt gwylloir unigol, y byddai hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 5 i 6 munud o newyddion lleol bob dydd, ac y bydd arlwy newyddion lleol ar-lein y BBC yn gwella.
- 5.8 I ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn, mae'r BBC wedi gofyn am newid yn y cwota rhaglennu newyddion ar BBC One (o 4,300 i 3,900 awr) ac yn y cwota rhaglennu newyddion yn yr Oriau Gwyllo Brig ar BBC One (o 2,100 i 1,700).²⁹

Rhaglenni newyddion cenedlaethol a rhanbarthol ar BBC One a Two (Amodau 2.67.6 a 2.67.8 / Amodau 4.31.4 a 4.31.5 yn Nhrwydded arfaethedig mis Mehefin 2022)

- 5.9 Mae'r BBC hefyd yn amlinellu tri math o newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w hallbwn newyddion cenedlaethol a rhanbarthol yn yr oriau gwyllo Brig a chyfagos â'r oriau Brig ("Cyfagos â Brig")³⁰:
- i) Cynyddu buddsoddiad mewn mwy o gynnwys ag effaith sylweddol. Cred y BBC y gwasanaethir cynrychiolaeth a phortreadu cynulleidfaoedd ar draws y DU orau gan ei hymrwymiad *Ar draws y DU* i wneud y mwyafrif o'i theledu DU gyfan ar draws y DU ac nid yn Llundain a chan ei strategaeth effaith sylweddol o gomisiynu maint llai o sioeau mwy uchelgeisiol ac o ansawdd uchel sydd ag apêl eang. Dywed y BBC y byddai hyn yn gweld gostyngiad mewn rhaglennu ar y gwasanaethau optio allan³¹ er mwyn ariannu rhaglenni effaith sylweddol sydd â naws leol gref yn bennaf ar gyfer y rhwydwaith teledu DU gyfan, wedi'i gomisiynu ar dariffau rhwydwaith. Byddai'r cynnwys effaith sylweddol hwn yn cael ei gomisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau neu ei gyd-gomisiynu gyda'r rhwydwaith. Mae'r BBC yn nodi y byddai'r buddsoddiad arfaethedig mewn rhaglenni effaith sylweddol yn uwch na'r arbedion o raglenni effaith is, gan olygu budd net i sectorau cynhyrchu lleol. Byddai'r strategaeth hon yn golygu tua 200 yn llai o oriau o raglenni nad ydynt yn newyddion ar y gwasanaethau optio allan.
 - ii) Gwella newyddiaduraeth materion cyfoes ymchwiliol yn Lloegr. Mae'r BBC yn bwriadu dod â'i rhaglen materion cyfoes yn Lloegr *We Are England* i ben a'i disodli â rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwiliol, a fydd yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer ar-lein, teledu a radio. Bydd y timau hyn yn creu 80 i 100 awr o gynnwys

²⁸ Diffinnir "Oriau Gwyllo Brig" yn y Drwydded Weithredu fel 18:00 i 22:30 mewn perthynas â'r holl Wasanaethau Teledu Cyhoeddus DU heblaw am BBC Four..."

²⁹ Dylid nodi nad oes unrhyw gyfatebiaeth uniongyrchol rhwng y gostyngiad mewn oriau newyddion a'r newid yn y cwota arfaethedig, gan fod y newid arfaethedig yn ystyried nid yn unig newidiadau penodol y BBC i'w hallbwn, ond hefyd ei gor-ddarpariaeth bresennol ar y cwota, a'r angen am hyblygrwydd yn y dyfodol.

³⁰ Cyfeirir at "Cyfagos â Brig" yn y Drwydded fel amseroedd yn union cyn neu ar ôl yr Oriau Gwyllo Brig.

³¹ Dywedodd y BBC y byddai'n gwneud hyn "trwy ddatgomisiynu rhaglenni sy'n tanberfformio, comisiynu llai o benodau bob blwyddyn o deitlau presennol neu beidio â chomisiynu cynifer o raglenni untro."

materion cyfoes yn Lloegr i'w ymgorffori mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes a 10-12 awr o raglenni untro hanner awr ar gyfer teledu llinol ac iPlayer bob blwyddyn. Noda'r BBC fod hyn yn gynydd yn y buddsoddiad mewn materion cyfoes ymchwiliol lleol yn Lloegr o fwy nag 20% uwchben y gyllideb ar gyfer *We Are England*. Mae'r newidiadau hyn yn cyfrif am o ostyngiad net o tua 50 awr y flwyddyn yn ei chwota Oriau Gwyllo Brig o gynnwys nad yw'n newyddion.

- iii) Newidiadau i amserlennu rhaglennu. Mae'r BBC yn dweud y byddai'n hoffi'r hyblygrwydd i ail-amserlennu rhai rhaglenni ar adegau pan fyddan nhw'n darparu'r gwerth mwyaf i'r gynulleidfa. Mae'n dadlau y byddai cynulleidfaeodd yn cael eu gwasanaethu'n well pe bai rhai rhaglenni hirsefydlog yn cael eu hail-amserlennu y tu allan i oriau Brif neu Gyfagos â Brig, ond nad yw'n gallu gwneud hynny oherwydd y cwotâu. Mae'n gofyn am yr hyblygrwydd i symud 50-60 awr o gynnwys nad yw'n newyddion yn yr Oriau Gwyllo Brig i rannau eraill o'r amserlen.

5.10 Mae'r newidiadau hyn yn gyfystyr â gostyngiad o tua 300 awr y flwyddyn mewn rhaglenni nad yw'n newyddion ar BBC One a Two sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol. I ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn, mae'r BBC wedi gofyn am newid yn y cwota rhaglennu nad yw'n newyddion oriau Brig ar BBC One a Two (o 557 i 200 awr) ac yn y cwota ar gyfer rhaglenni newyddion gyfagos â Brig ar BBC One a Two (o 179 i 150).³²

Rhaglennu o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One a Two (Amod 2.67.1 / Cyflwr 4.31.1 yn Nhrwydded arfaethedig mis Mehefin 2022)

5.11 Fel y nodwyd uchod, mae'r cwota yn amod 2.67.2 (4.31.1 yn nhrwydded arfaethedig mis Mehefin 2022) yn cwmpasu rhaglenni newyddion a rhaglenni nad ydynt yn newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau a bydd unrhyw newidiadau i'r cwotâu newyddion ac nad yw'n newyddion eraill y cyfeirir atynt uchod yn effeithio yn eu tro ar lefel y cwota cyffredinol hwn.

Ein hasesiad a'n barn dros dro

Newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One

5.12 Canfu ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer ein hadolygiad [*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*](#) fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hystyried yn arbennig o bwysig ar gyfer darparu newyddion a materion cyfoes i'r gwledydd a'r rhanbarthau,³³ pwynt a wnaed hefyd

³² Dylid nodi nad oes unrhyw gyfatebiaeth uniongyrchol rhwng y gostyngiad mewn oriau nad yw'n newyddion a'r newid yn y cwota arfaethedig, gan fod y newid arfaethedig yn ystyried nid yn unig newidiadau penodol y BBC i'w hallbwn, ond hefyd ei gor-ddarpariaeth bresennol ar y cwota, a dymuniad y BBC am hyblygrwydd yn y dyfodol.

³³ Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. [*Effaith y cyfnod clo ar berthynas cynulleidfaeodd â darlledu gwasanaeth cyhoeddus*](#), t.7.

gan randdeiliaid.³⁴ Dengys ein hymchwil hefyd fod boddhad cynulleidfaoedd ar newyddion teledu rhanbarthol y BBC yn uchel ar y cyfan.³⁵

Newidiadau i'r cwota i adlewyrchu'r bwriad i gau gwasanaethau newyddion lleol optio allan Rhydychen a Chaergrawnt

- 5.13 Nid yw Ofcom yn rheoleiddio union nifer a maint daearyddol gwasanaethau optio allan rhanbarthol y BBC, penderfyniadau ar gyfer ei Bwrdd yw'r rhain. Ond mae'n ofynnol i'r BBC ddarparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng ngwledydd, rhanbarthau a chymunedau lleol y DU. Dywedon ni yn ein Hymgyngoriad mis Mehefin 2022 y dylai'r BBC gael rhywfaint o hyblygrwydd i benderfynu sut mae'n darparu'r math hwn o gynnwys lleol i gynulleidfaoedd, a sut mae ei gwahanol wasanaethau'n cyfrannu at y ddarpariaeth honno.
- 5.14 O ganlyniad i'r newid hwn, rydym yn cydnabod y bydd cynulleidfaoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt yn derbyn newyddion o ardal ddaearyddol ehangach nag y maent ar hyn o bryd ac y mae'n bosib y bydd rhai o'r newyddion hyn yn teimlo'n llai perthnasol. Ond bydd y cynulleidfaoedd hyn yn parhau i dderbyn newyddion am eu hardal fel rhan o fwletin o'r un hyd. At hynny, bydd y cynnig newyddion lleol ar-lein gwell y mae'r BBC yn bwriadu ei ariannu gyda'i harbedion cost hefyd yn fuddiol i'r gyfran gynyddol o gynulleidfaoedd sy'n cael mynediad at eu newyddion ar-lein. Mae cynlluniau'r BBC yma yn alinio i'r nodau a nodir yn ein Hymgyngoriad mis Mehefin 2022 o gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC ac addasu'n hyblyg i anghenion y gynulleidfa, yn enwedig ymddygiad gwyllo newidiol. Gan hynny, rydym o'r farn y byddwn yn addasu'r cwotâu perthnasol yn unol â hynny.
- 5.15 Byddai gofynion tryloywder newydd a gynigir yn Ymgynghoriad mis Mehefin 2022 yn sicrhau bod y BBC yn cyhoeddi ei chynlluniau a'i hadrodd mewn perthynas â newyddion cenedlaethol a rhanbarthol ar-lein yn flynyddol, gan ein galluogi i dracio ei pherfformiad yn y maes hwn.³⁶ Trafodir hyn yn fanylach isod.

Newidiadau i'r cwota i adlewyrchu newidiadau i hyd ac amserlennu rhaglenni

- 5.16 Rydym yn parhau o'r farn, fel y nodir yn ein Hymgyngoriad mis Mehefin 2022 bod angen rhai cwotâu i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu maint sylweddol o gynnwys newyddion a materion cyfoes ar draws ei gwasanaethau teledu a radio. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ystyried ei bod yn briodol y dylai fod gan y BBC rywfaint o hyblygrwydd i wneud mân addasiadau i hyd ac amserlennu ei rhaglennu er mwyn ymateb i anghenion cynulleidfaoedd yn ogystal ag amrywiadau yn y cylch newyddion. Yn ein trafodaethau gyda'r BBC ers iddi gyflwyno ei chynigion, nodwyd hefyd y pwysigrwydd bod ganddi'r

³⁴ [Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom](#), t.2; ac Ofcom, Gorffennaf 2021. [Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Argymhellion i Lywodraeth y DU ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#), t.21, troednodyn 68.

³⁵ [Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2022](#). Mae 82% o oedolion sy'n dilyn newyddion ar deledu rhanbarthol y BBC yn fodlon ag ansawdd y newyddion lleol maen nhw'n ei ddarparu.

³⁶ Mae Amod 4.68.1 y Drwydded Weithredu arfaethedig yn mynnu i'r BBC gyhoeddi "ei chynlluniau mewn perthynas â phob un o BBC iPlayer, BBC Sounds a Gwefan y BBC i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau". Mae Amod 4.69 y Drwydded Weithredu arfaethedig yn gofyn i'r BBC adrodd ar y cynlluniau hynny, gan gynnwys a yw wedi gwneud newidiadau sylweddol iddynt a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

hyblygrwydd i wneud penderfyniadau amserlennu yn y maes hwn gyda'r pwysau ariannol sydd arni mewn golwg.

- 5.17 O ran yr achosion a ddisgrifiwyd gan y BBC, rydym yn fodlon bod y newidiadau y cyfeiriodd atynt wedi'u gwneud wrth ymateb i newidiadau yn anghenion y gynulleidfa, ac ni fyddai gostyngiad o 5.5 munud o newyddion lleol y dydd yn effeithio'n sylweddol ar y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd. Yn benodol:
- Rydym o'r farn bod gweithredoedd y BBC o ymestyn ac yna byrhau ei bwletin newyddion lleol 10.30pm yn ystod ac ar ôl y pandemig yn enghraifft dda ohoni'n ymateb yn hyblyg yn ymateb i anghenion y gynulleidfa a'r cylch newyddion.³⁷ Yn seiliedig ar y dystiolaeth y mae'r BBC wedi'i darparu, nid yw'n ymddangos bod y newid wedi effeithio ar nifer y gwylwyr wrth ystyried cyrhaeddiad, maint y gynulleidfa a'r gyfran o wyllo.
 - O ran *BBC Breakfast*, fe wnaethom ystyried adborth cynulleidfaoedd y BBC fod bwletinau lleol hanner awr yn ailadroddus ac i'r dadansoddiad ddangos bod y gwylwr cyffredin yn gwyllo'r rhaglen am 48 munud, gan olygu bod y rhan fwyaf o wylwyr yn cael yr un cynnwys o fwletinau o leiaf ddwywaith. Rydym o'r farn bod penderfyniad y BBC i hepgor un o'r bwletinau yn rhesymol ac nad yw'n ymddangos, yn seiliedig ar ei dadansoddiad, bod y newid wedi effeithio ar arferion gwyllo cynulleidfaoedd.
 - Rydym yn cytuno na fydd newid amserlennu'r BBC i'w slot newyddion gyda'r nos sy'n gweld y bwletin newyddion lleol yn dechrau am 10.30pm yn hytrach na 10.25pm yn newid profiad cynulleidfaoedd o'r rhaglennu yn sylfaenol. Newid ymylol yw symudiad amser pum munud, ac fel y nodwyd uchod, mae dadansoddiad y BBC yn dangos bod nifer gwylwyr y bwletin wedi aros yn sefydlog ar ôl y newid.

Ein barn dros dro

- 5.18 Ein barn dros dro ar gynigion y BBC mewn perthynas â'i chwota rhaglenni newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One yw y gallai addasiad i'r Drwydded fod yn briodol. Rydym yn cynnig gostwng lefel y newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol y mae'n rhaid iddi ei ddarlledu o 4,300 awr i 3,900 awr ac yn yr Oriau Gwyllo Brig o 2,100 i 1,700 awr.
- 5.19 Mae gallu'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd drwy gynnig newyddion lleol gwell ar-lein yn bwysig wrth gyfiawnhau cau ei gwasanaethau optio allan ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt. Yn Ymgynghoriad mis Mehefin 2022, bu i ni gynnig gofyniad tryloywder newydd (amod 4.68.1 yn y Drwydded ddrafft) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi "ei chynlluniau mewn perthynas â phob un o BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan y BBC i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau" ochr yn ochr â'i Chynllun Blynyddol. Wrth gydymffurfio â'r gofyniad hwn, byddem yn disgwyl i'r BBC gyhoeddi ei chynlluniau mewn perthynas â newyddion cenedlaethol a rhanbarthol ar-lein. Byddai amod arfaethedig 4.69 hefyd yn mynnu i'r BBC adrodd ar y cynlluniau hyn, gan gynnwys ar unrhyw newidiadau iddynt a'r rhesymau dros y newidiadau hynny, ochr yn ochr â'i Hadroddiad Blynyddol.

³⁷ Nodwn nad yw'r newid hwn wedi arwain at ostyngiad cyffredinol mewn newyddion lleol gan i'r bwletin gael ei ymestyn dros dro cyn dychwelyd i'w hyd gwreiddiol.

- 5.20 Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu gyda newyddion lleol waeth p'un a ydynt am ddefnyddio gwasanaeth llinol neu ar-lein. Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC dracio a yw ei strategaeth ar gyfer darparu newyddion i'r holl gynulleidfaoedd yn llwyddiannus. Mae Ofcom hefyd yn ymgymryd â'i hymchwil gynulleidfaoedd ei hun, gan gynnwys asesu boddhad ac agweddau cynulleidfaoedd tuag at newyddion, yn y maes hwn.

Rhaglenni nad ydynt yn newyddion cenedlaethol a rhanbarthol ar BBC One a Two

- 5.21 Mae rhaglenni nad ydynt yn newyddion yn agwedd bwysig ar arlwy'r BBC yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r cynnwys hwn yn cynnwys materion cyfoes, sylwebaeth chwaraeon lleol, rhaglennu a chomedi mewn ieithoedd brodorol, drama, rhaglenni crefyddol a ffeithiol sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol. Mae rhaglennu o'r fath yn cyfrannu at ddiwylliant y wlad neu'r rhanbarth ac o fudd i'r sector cynhyrchu lleol. Mae'n cynnig cyfle i adrodd storïau y gall cynulleidfaoedd lleol uniaethu â nhw ac sy'n adlewyrchu eu cymuned yn ôl iddynt.

Cynyddu buddsoddiad mewn mwy o gynnwys sydd ag effaith sylweddol

- 5.22 gwnaethom ofyn i'r BBC ddarparu mwy o fanylion ynglŷn â pham y byddai ei strategaeth effaith sylweddol yn arwain at ostyngiad o 200 awr mewn oriau o raglenni nad ydynt yn newyddion ar wasanaethau optio allan BBC One a Two bob blwyddyn. Fe esboniodd y byddai tua 90 o'r oriau hyn yn cael eu datblygu fel cynnwys effaith sylweddol a fyddai'n fwyaf tebygol o gael ei ddarparu gyntaf ar y gwasanaethau rhwydwaith. Mae'r 110 awr arall yn cynrychioli gostyngiad mewn oriau a gomisiynir er mwyn ariannu'r cynnwys effaith sylweddol hwn. Fe ddarparodd [gyflwyniad ar wahân](#) i ni hefyd sy'n rhoi mwy o fanylder am ei chynigion mewn perthynas â rhaglenni newyddion cenedlaethol a rhanbarthol.
- 5.23 Mewn trafodaethau gyda'r BBC, bu i ni amlygu ein pryder y gallai'r strategaeth hon arwain at ostyngiad yn ehangder y cynnwys a gynhyrchir ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Gallai'r nifer llai o oriau o raglenni nad ydynt yn newyddion a adawyd ar y gwasanaethau optio allan effeithio ar yr ystod o genres yr ymdrinnir â hwy a gallai'r ffocws ar gynulleidfaoedd rhwydwaith beri'r risg na fydd cynnwys sydd o ddiddordeb unigryw i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhanbarthol yn flaenoriaeth bellach. Er efallai na fydd y cynnwys hwn yn denu cynulleidfaoedd mawrion, nid yr unig fesur o lwyddiant mo nifer fawr o wylwyr ac mae cynnwys hynod unigryw a werthfawrogir gan gynulleidfa fach hefyd yn werthfawr.
- 5.24 Mae'r BBC wedi rhoi eglurhad o ran ei hymrwymiad i gynnal ehangder o genres ar draws ei rhaglenni nad ydynt yn newyddion sydd o ddiddordeb rhanbarthol neu genedlaethol. Mae wedi dweud nad oes ganddi gynlluniau ar hyn o bryd i ostwng ei harlwy materion cyfoes yn y gwledydd datganoledig na maint y sylwebaeth chwaraeon lleol, cynnwys iaith frodorol, celfyddydau a cherddoriaeth na rhaglenni addysg a ddarlledir. Mae hefyd yn bwriadu parhau i ddarlledu amrywiaeth o raglenni comedi, drama, crefyddol a ffeithiol sydd o ddiddordeb rhanbarthol neu genedlaethol. Rydym yn croesawu cadarnhad y BBC na fydd

unrhyw newid yn ehangder y genres a gwmpesir gan wasanaethau optio allan y BBC ym mhob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau.

- 5.25 Un risg bellach a berir gan strategaeth effaith sylweddol y BBC yw y bydd cynnwys rhwydwaith effaith sylweddol y mae'n bwriadu ei gomisiynu neu ei gyd-gomisiynu o'r gwledydd a'r rhanbarthau yn mynd yn fwy generig dros amser. Gall ymdrechion i apelio at gynulleidfa ehangach olygu bod y cynnwys hwn yn llai perthnasol i'r wlad neu ranbarth y mae'n cael ei gomisiynu ohoni. Mae'r BBC wedi dweud y bydd penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud gyda'r gwledydd a'r rhanbarthau i ddiogelu'r perthnasedd lleol hwn. Mae hefyd wedi dweud y bydd yn tracio perfformiad y rhaglenni effaith uchel hyn yn y wlad neu'r rhanbarth y cafodd ei gomisiynu ohoni, ar draws y DU ac ar BBC iPlayer. Mae wedi dweud wrthym y bydd yn edrych ar wylwyr, enillion ar fuddsoddiad a barn cynulleidfaoedd, o ran boddhad a pha un a yw'r cynnwys yn eu cynrychioli a'u portreadu'n briodol ai beidio, yn ogystal â sut mae'r rhaglenni'n perfformio yn y gwledydd o'i gymharu â'r DU gyfan.
- 5.26 Er ein bod yn ymwybodol o'r risgiau posib, credwn y gall strategaeth effaith sylweddol y BBC fod o fudd i gynulleidfaoedd a chynhyrchwyr lleol. Gall rhaglenni rhwydwaith effaith fwy sylweddol o'r gwledydd a'r rhanbarthau, neu drwy gyd-gomisiynu rhwng y BBC yn y Gwledydd a chomisiynwyr rhwydwaith, ddod â gwell gynrychiolaeth a phortread o'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny i gynulleidfaoedd ehangach y DU. Gallai gweld lleoedd, doniau a storïau lleol yn cael eu cyflwyno mewn rhaglennu cyllideb uwch ac ar gael yn gyffredinol ar wasanaethau rhwydwaith a BBC iPlayer roi gwerth i gynulleidfaoedd lleol. Byddem hefyd yn gweld cryfhau rôl comisiynwyr yn y cenedloedd a'r rhanbarthau ym mhenderfyniadau rhwydwaith. Mae'n bosib y bydd newid y strategaeth hefyd o fudd i'r sector cynhyrchu lleol o ganlyniad i fuddsoddiad cynyddol a mwy o gyfleoedd i gynhyrchwyr lleol greu cynnwys cyllideb uwch ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith y BBC.

Gwella newyddiaduraeth materion cyfoes ymchwiliol yn Lloegr

- 5.27 Rydym wedi ymgysylltu â'r BBC ar ei chynlluniau o ran cynnwys teledu materion cyfoes yn rhanbarthau Lloegr wrth ymateb i'r cynigion hyn ac fel rhan o'n gwaith cydymffurfiaeth ar gyfer ein [pumed Adroddiad Blynyddol ar y BBC](#). Gyda chynlluniau'r BBC i ddod â *We Are England* i ben, mae'n bwysig i ni ddeall sut y bydd yn parhau i gyflwyno materion cyfoes i gynulleidfaoedd yn Lloegr. Croesawn y manylder ychwanegol y mae'r BBC wedi'i ddarparu ar beth fydd ei rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwiliol yn ei ddarparu yn lle rhaglen materion cyfoes benodol. Er bod y 10-12 awr o raglenni untro ar gyfer teledu llinol ac iPlayer yn fwy tebyg i raglen o'r fath, mae'r 80 i 100 awr o gynnwys materion cyfoes i Loegr sydd wedi'i ymgorffori mewn rhaglenni presennol yn cynrychioli ymagwedd wahanol at gynnig materion cyfoes.
- 5.28 Rydym o'r farn ei bod yn bwysig i'r BBC gael yr hyblygrwydd i roi cynnig ar wahanol strategaethau fel hyn, ond bod yn rhaid iddi fod yn ddigon tryloyw ynglŷn â sut fydd ei rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwiliol yn cyflwyno materion cyfoes yn Lloegr yn y dyfodol.

Newidiadau i amserlennu rhaglennu

- 5.29 Fel y nodwyd yn ein hasesiad o gynigion y BBC ynghylch newyddion o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol, rydym o'r farn ei bod yn briodol y dylai fod gan y BBC rywfaint o hyblygrwydd i wneud mân addasiadau i hyd ac amserlennu ei rhaglennu er mwyn ymateb i anghenion cynulleidfaoedd. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer ei rhaglennu nad yw'n newyddion.
- 5.30 Mae'r BBC o'r farn y byddai cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n well pe bai rhai o'i rhaglenni hirsefydlog ar y gwasanaethau optio allan yn cael eu hail-amserlennu yn ystod y dydd neu ar ôl yr Oriau Gwyllo Brig yn hytrach nag yn yr Oriau Brig neu Oriau Gyfagos â Brig.

Ein barn dros dro

- 5.31 Mae amrywiaeth o fanteision i gynigion y BBC yr ydym wedi'u nodi uchod, ond risgiau posib hefyd. Wrth ystyried y mater yn ei gyfanrwydd, rydym o'r farn y dylid caniatáu i'r BBC ddatblygu ei chynlluniau ar gyfer rhaglennu cenedlaethol a rhanbarthol effaith uchel, materion cyfoes yn Lloegr ac amserlennu rhaglennu nad yw'n newyddion, ond gyda rhai mesurau diogelu ar waith. Rydym felly yn cynnig gostwng lefel y cynnwys nad yw'n newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol y mae'n rhaid iddi ei ddarlledu yn yr Oriau Gwyllo Brig o 557 i 200 awr ac o 179 i 150 awr yn yr oriau gwyllo Cyfagos â Brig.
- 5.32 Er mwyn sicrhau ymrwymiad y BBC i gynnal ehangder y genres a fydd yn parhau ar ei gwasanaethau optio allan, rydym yn bwriadu rhoi gofyniad tryloywder ar waith er mwyn iddi nodi'r ystod o genres y mae'n bwriadu eu darlledu ym mhob gwlad bob blwyddyn ochr yn ochr â'i Chynllun Blynyddol ac esbonio'r rhesymau dros unrhyw newidiadau o'i darpariaeth bresennol. Rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei chyfanswm arfaethedig o gynnwys nad yw'n newyddion a nifer yr oriau ohono a ddarlledir am y tro cyntaf ar y gwasanaethau optio allan ochr yn ochr â'i Chynllun Blynyddol er mwyn i ni gadw golwg ar ddarpariaeth gyffredinol y BBC o'r cynnwys hwn.³⁸ Gallwn ofyn am ddadansoddiad manylach o'r wybodaeth hon fesul genre gan y BBC os ydym o'r farn bod angen gwneud hynny. Byddai'n ofynnol i'r BBC hefyd adrodd ar y cynlluniau hyn, gan gynnwys unrhyw newidiadau, ochr yn ochr â'i Hadroddiad Blynyddol.
- 5.33 Bydd yn bwysig i ni dracio maint y rhaglennu cenedlaethol a rhanbarthol effaith sylweddol nad yw'n newyddion a ddarlledir ar wasanaethau teledu rhwydwaith. Yn hynny o beth, rydym yn bwriadu pennu gofyniad tryloywder i'r BBC gyhoeddi oriau arfaethedig y cynnwys hwn ochr yn ochr â'i Chynllun Blynyddol ac yna adrodd ar unrhyw newidiadau i'r oriau hyn gyda'i Hadroddiad Blynyddol.

³⁸ Rydym yn nodi, o dan ein Hymgyngoriad mis Mehefin 2022, i ni gynnig y dylai'r BBC amlinellu ei chynlluniau ar gyfer cynnwys nad yw'n newyddion na materion cyfoes, a byddai'r cynigion a nodir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn felly yn ymestyn y gofyniad hwn ymhellach. Nodwn hefyd, er i'r BBC gyflwyno ei chynlluniau i ni yng nghyd-destun cais am ostwng ei chwota nad yw'n newyddion oriau brig a chyfagos â brig, y cadarnhaodd fod ei strategaeth effaith sylweddol hefyd yn berthnasol i gynnwys a ddarlledir y tu allan i oriau brig a chyfagos â brig, a'n bod felly yn credu bod angen darparu'r wybodaeth hon ar draws y dydd.

- 5.34 Yn Ymgynghoriad mis Mehefin 2022, fe wnaethom gynnig cyflwyno gofyniad tryloywder 4.67 sy'n mynnu i'r BBC gyhoeddi bob blwyddyn y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys unrhyw newidiadau arwyddocaol y mae'n bwriadu eu gwneud o'i darpariaeth bresennol a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Wrth gydymffurfio â'r gofyniad hwn, byddem yn disgwyl i'r BBC nodi'n glir sut y bydd ei strategaeth effaith sylweddol yn cyflawni'r buddion y mae'n eu hamlygu yn ei chynigion. Dylai hyn gynnwys sut y bydd yn cyrraedd ac yn uniaethu â chynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gwella eu cynrychiolaeth a'u portread i gynulleidfaoedd ehangach y DU a chyflwyno buddion i sectorau cynhyrchu lleol trwy fuddsoddiad cynyddol.
- 5.35 Bydd ffocws y BBC ar raglennu â chyllideb uwch ac effaith fwy sylweddol yn rhoi mwy o bwyslais ar fuddsoddi fel mesur o berfformiad a byddem yn disgwyl i'r BBC ddarparu gwybodaeth tra fanwl i ni am ei gwariant arfaethedig yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac ar raglenni effaith sylweddol yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried a ddylai'r fath wybodaeth gael ei chyhoeddi.
- 5.36 Mae gofyniad tryloywder arfaethedig 4.69 hefyd yn mynnu i'r BBC adrodd yn flynyddol ar y cynlluniau a nodwyd ganddi o dan amod 4.67, gan gynnwys a yw wedi gwneud newidiadau arwyddocaol i'r cynlluniau a'r rhesymau dros y newidiadau. Wrth gydymffurfio â'r gofyniad hwn, byddem yn disgwyl i'r BBC ddatblygu ei dulliau presennol o adrodd ar wariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ei Hadroddiad Blynyddol i ddangos yn glir gynnwys rhwydwaith effaith sylweddol o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol. Rydym hefyd yn disgwyl iddi adrodd ar berfformiad y cynnwys hwn gyda chynulleidfaoedd yn y wlad neu'r rhanbarth y mae'n tarddu ohoni o ran nifer y gwylwyr a boddhad, gan gynnwys pa mor dda y mae'n eu cynrychioli a'u portreadu. Dylai'r BBC hefyd ystyried cyrhaeddiad y fath gynnwys i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn ogystal â chynulleidfaoedd ehangach y DU. Mae'r BBC eisoes wedi ymrwymo i rywfaint o waith adrodd yn y maes hwn yn ei [chyflwyniad ychwanegol](#) a byddem yn gweithio gyda nhw i ddatblygu hyn. Byddem hefyd yn bwriadu tracio barn cynulleidfaoedd fel rhan o'n hasesiad o berfformiad.
- 5.37 O ran materion cyfoes yn Lloegr, byddem yn disgwyl i'r BBC nodi cyfraniad arfaethedig ei rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwiliol at faterion cyfoes yn Lloegr wrth gydymffurfio â gofynion tryloywder arfaethedig 4.68.1 a 4.69 yn y Drwydded Weithredu ddrafft. Dylai hyn gynnwys yr oriau o raglenni untro, oriau o gynnwys a gynhyrchir ar gyfer rhaglenni eraill a chyfraniad at newyddion ar-lein.
- 5.38 Os byddwn yn bwrw ymlaen â'n newidiadau arfaethedig i'r Drwydded yn sgil yr ymgynghoriad hwn, credwn y bydd yr wybodaeth a amlinellir uchod yn ein galluogi i asesu a ddarperir yn briodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau o ganlyniad i gynlluniau'r BBC mewn perthynas â rhaglennu effaith sylweddol, materion cyfoes yn Lloegr ac amserlennu'r gwasanaethau optio allan. Byddwn ni'n edrych ar eu cyflwyniad ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid i ddeall effaith y newidiadau. Os bydd gennym bryderon ynghylch perfformiad y BBC, gallwn gamu i'r adwy i ymdrin â nhw, gan gynnwys drwy ddychwelyd y cwotâu i'w lefelau blaenorol neu gyflwyno gofynion pellach.

Ein newidiadau arfaethedig i'r drwydded

- 5.39 Rydym yn cynnig gostwng lefel y newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarlledu ar BBC One o 4,300 awr i 3,900 awr ac yn yr Oriau Gwyllo Brig o 2,100 i 1,700 awr.
- 5.40 Rydym yn cynnig gostwng lefel y cynnwys o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol nad yw'n newyddion y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarlledu yn yr Oriau Gwyllo Brig ar BBC One a BBC Two gyda'i gilydd o 557 i 200 awr ac o 179 i 150 awr yn yr oriau gwyllo Cyfagos â Brig.
- 5.41 Yn unol â'r gostyngiadau uchod, rydym yn cynnig gostwng lefel gyffredinol y rhaglennu sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarlledu ar BBC One a BBC Two gyda'i gilydd o 5,909 i 5,000 o oriau.
- 5.42 Rydym yn cynnig pennu gofyniad tryloywder newydd i'r BBC amlinellu'r ystod o genres y mae'n bwriadu eu darlledu ar ei gwasanaethau optio allan bob blwyddyn ochr yn ochr â'i Chynllun Blynnyddol. Rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol iddi gyhoeddi ei chyfanswm arfaethedig o gynnwys nad yw'n newyddion a nifer yr oriau ohono a ddarllidir am y tro cyntaf ar y gwasanaethau optio allan ochr yn ochr â'i Chynllun Blynnyddol. Byddai amod 4.69 yn y Drwydded Weithredu ddrafft hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd ar y cynlluniau hyn, gan gynnwys unrhyw newidiadau, ochr yn ochr â'i Hadroddiad Blynnyddol.
- 5.43 Rydym yn cynnig pennu gofyniad tryloywder i'r BBC gyhoeddi'r oriau arfaethedig o raglenni nad ydynt yn newyddion effaith sylweddol sydd o ddiddordeb i'r gwledydd a'r rhanbarthau a ddarllidir ar wasanaethau teledu rhwydwaith ochr yn ochr â'i Chynllun Blynnyddol. Byddai amod 4.69 yn y Drwydded Weithredu ddrafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd yn erbyn ei chyflwyniad o'r oriau hyn, gan gynnwys unrhyw newidiadau, ochr yn ochr â'i Hadroddiad Blynnyddol.
- 5.44 Mewn cydymffurfiaeth ag amod 4.67 yn y Drwydded Weithredu ddrafft, rydym yn disgwyl i'r BBC ddisgrifio'n glir sut fydd ei strategaeth effaith sylweddol yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac yn cyflwyno buddion i sectorau cynhyrchu lleol trwy gynyddu buddsoddiad.
- 5.45 Mewn cydymffurfiaeth ag amod 4.69 yn y Drwydded Weithredu ddrafft, rydym yn disgwyl i'r BBC adrodd ar sut mae ei strategaeth effaith sylweddol wedi cyflwyno buddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau a sut mae ei chynnwys effaith sylweddol yn perfformio gyda chynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac ar draws y DU.
- 5.46 Mewn cydymffurfiaeth ag amodau 4.68.1 a 4.69 yn ein Trwydded Weithredu ddrafft, byddem yn disgwyl i'r BBC gyhoeddi cynlluniau a dulliau adrodd ar newyddion ar-lein o ddiddordeb cenedlaethol a ranbarthol ac ar gyfraniad ei newyddiadurwyr ymchwiliol newydd at faterion cyfoes yn Lloegr, gan gynnwys yr oriau o raglenni untro, oriau o gynnwys a gynhyrchir ar gyfer rhaglenni eraill a'u cyfraniad at newyddion ar-lein.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer Rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo'n bosib.

A1. Amodau Arfaethedig y Drwydded Weithredu

- A1.1 Mae'r atodiad hwn yn nodi sut mae Ofcom yn bwriadu diwygio amodau'r Drwydded Weithredu a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin i adlewyrchu'r cynigion a wnaed yn yr ymgynghoriad hwn. Er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddeall effaith y cynigion rydym yn cynnwys y canlynol isod:
- a) cymhariaeth rhwng amodau'r Drwydded Weithredu a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin a'r amodau diwygiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'i dangos fel llinell ddu; ac
 - b) amodau arfaethedig y Drwydded Weithredu arfaethedig sy'n ystyried y cynigion a wnaed yn yr Ymgynghoriad ym mis Mehefin a'r ymgynghoriad hwn a ddangosir fel fersiwn lân.

Cymhariaeth rhwng amodau a gynigiwyd yn ymgynghoriad mis Mehefin a chynigion arfaethedig y Drwydded Weithredu

BBC Radio 5 live

- A1.2 Mae cymhariaeth rhwng amodau'r Drwydded Weithredu a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin a'r amodau diwygiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 live wedi'i dangos isod.

“1.13. Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.13.1 bod o leiaf ~~75%~~ 70% o'i hallbwn ym mhob Blwyddyn Ariannol yn rhaglennu newyddion a materion cyfoes; ac

1.13.2 yr ymdrinnir yn gynhwysfawr ag etholiadau lleol a chyffredinol, ac ag etholiadau i siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ymdrin yn rheolaidd â gwleidyddiaeth ryngwladol.”

Cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2

- A1.3 Mae cymhariaeth rhwng amodau'r Drwydded Weithredu a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin a'r amodau diwygiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2 wedi'i dangos isod:

3.10 “Mewn perthynas â **BBC Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

3.10.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y Dydd yn dod o artistiaid y Deyrnas Unedig;

3.10.2 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 20% o'r gerddoriaeth yn ystod y Dydd yn Gerddoriaeth Newydd, y mae'n rhaid i gyfran sylweddol ohoni fod gan artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg yn y Deyrnas Unedig;

- 3.10.3 ym mhob Blwyddyn Ariannol, ei bod yn darlledu o leiaf 26068 awr o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth newydd wedi'i recordio'n arbennig (gan eithrio ailddarllediadau);
- 3.10.4 ym mhob Blwyddyn Ariannol, ei bod yn darlledu o leiaf 1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol. At ddiben y gofyniad hwn, ystyr "cerddoriaeth arbenigol" yw cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr, ac yn canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres; a
- 3.10.5 bod yr orsaf yn chwarae ystod ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy, gan gymryd i ystyriaeth y nifer o weithiau y chwaraeir cân a maint y rhestr chwarae, yn yr Oriau Gwrando Brig ac yn ystod y Dydd.³⁹

Rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

A1.4 Mae cymhariaeth rhwng amodau'r Drwydded Weithredu a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin a'r amodau diwygiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau wedi'i dangos isod:

“4.31 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 4.31.1 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5,909 5,000 awr yn cael eu dyrannu i raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;
 - 4.31.2 bod y rhaglenni hynny'n cynnwys ystod addas o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);
 - 4.31.3 bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni a wneir yn y wlad neu'r rhanbarth y mae'r rhaglenni hynny i fod o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol iddi;
 - 4.31.4 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 557200 awr o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni nad ydynt yn newyddion yn yr Oriau Gwyllo Brig; ac
 - 4.31.5 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 179150 awr o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni nad ydynt yn newyddion ar adegau yn union cyn neu'n dilyn yr Oriau Gwyllo Brig.
- 4.32 Ym mhob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod yr amser a neilltuir i raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 4.31 yn cynnwys o leiaf 4,300 3,900 awr o newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol i'w darlledu ar gyfnodau drwy gydol y dydd ar BBC One, y mae'n rhaid i o leiaf 2,100 1,700 awr ohonynt fod yn ystod yr oriau gwyllo brig.”

³⁹ At ddibenion nodi darparwyr cymaradwy, mae'r disgrifiad o'r gwasanaeth Radio 2 a gyhoeddwyd o dan Ran 1, Atodlen 1 y Cytundeb, a'r gynulleidfa y mae'n ei denu, yn ystyriaethau allweddol. I'r graddau bod Radio 2 yn cyflawni ei gofyniad i chwarae cerddoriaeth arbenigol trwy chwarae'r fath gerddoriaeth y tu allan i Oriau Gwrando Brig ac yn ystod y Dydd, ni fyddem yn ystyried bod gorsaf sy'n arbenigo mewn genre arbennig o gerddoriaeth yn ddarparwr tebyg.

Gofynion tryloywder o ran rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

A1.5 Mae cymhariaeth rhwng amodau'r Drwydded Weithredu a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin a'r amodau diwygiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn ynghylch y gofynion tryloywder o ran rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau wedi'u nodi isod. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydym yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i amodau 4.67 a 4.69 a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin; mae'r rhain wedi'u cynnwys isod dim ond at ddiben helpu rhanddeiliaid i ddeall yn well y newidiadau arfaethedig i amod 4.68.

“4.67 Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi ei Chynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yn Yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhanbarthau Lloegr, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn honno o'i darpariaeth bresennol a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

4.68 Wrth gydymffurfio ag amod 4.67, mae'n rhaid i'r BBC gynnwys y canlynol:

4.68.1 ei chynlluniau mewn perthynas â phob un o **BBC iPlayer**, **BBC Sounds** a **Gwefan y BBC** i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau;

4.68.2 ar gyfer yr holl amrywiadau o **BBC One** yn rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd, yr oriau o newyddion ~~a materion cyfoes~~ y mae'n bwriadu eu darparu;

4.68.3 ar gyfer pob un o'r canlynol: (i) holl amrywiadau **BBC One** ar gyfer rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd; (ii) **BBC Scotland**, (iii) **BBC One Scotland**, (iv) **BBC One Wales**, (v) **BBC Two Wales**, (vi) **BBC One Northern Ireland**, (vii) **BBC Two Northern Ireland** a (viii) **BBC iPlayer**, ei chynlluniau i ddarparu ystod o raglennu nad yw'n newyddion ~~a rhaglennu nad yw'n faterion cyfoes~~. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.3.1 oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

4.68.3.2 oriau arfaethedig o raglennu materion cyfoes;

4.68.3.23 oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

4.68.3.4 oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf; a

4.68.3.5 rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

4.68.4 oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith a anelir yn benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.⁴⁰

4.68.45 yn achos **BBC Alba** a **BBC iPlayer**, ei chynlluniau i ddarparu rhaglennu a anelir at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.45.1oriau arfaethedig o raglenni a anelir at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg; ac

4.68.45.2oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf a anelir at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg.

4.68.56 ar gyfer pob un o **BBC Alba**, **BBC One Northern Ireland**, **BBC Two Northern Ireland** a **BBC iPlayer**, ei chynlluniau i ddarparu rhaglennu yn yr iaith ffordorol. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.56.1oriau arfaethedig o raglennu Gaeleg, Gwyddeleg ac Wlster-Scoteg; ac

4.68.56.2oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf, o raglennu Gaeleg, Gwyddeleg ac Wlster-Scoteg.

4.69 Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol, adroddiad sy'n nodi a gymerwyd y camau a nodwyd ganddi o dan amodau 4.67 a 4.68 yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn berthnasol iddi, gan gynnwys a yw wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r cynlluniau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny."

Amodau Arfaethedig y Drwydded Weithredu

BBC Radio 5 live

A1.6 Rydym yn cynnig diwygio amodau newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live fel a ganlyn:

"1.13 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.13.3 bod o leiaf 70% o'i hallbwn ym mhob Blwyddyn Ariannol yn rhaglennu newyddion a materion cyfoes; ac

1.13.4 yr ymdrinnir yn gynhwysfawr ag etholiadau lleol a chyffredinol, ac ag etholiadau i siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ymdrin yn rheolaidd â gwleidyddiaeth ryngwladol."

⁴⁰ Yn ymgynghoriad mis Mehefin cynigiwyd diffiniad o "Raglenni Rhwydwaith" fel a ganlyn: "raglenni a wneir i'w gwyllo ar unrhyw un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ar wahân i raglenni a wneir i'w gwyllo dim ond ar amrywiad o'r fath wasanaeth sy'n ymwneud ag un o'r canlynol: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth o Loegr".

Cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2

A1.7 Rydym yn cynnig diwygio amodau cerddoriaeth fyw BBC Radio 2 fel a ganlyn:

3.10 "Mewn perthynas â BBC Radio 2, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 3.10.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y Dydd yn dod o artistiaid y Deyrnas Unedig;
- 3.10.2 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 20% o'r gerddoriaeth yn ystod y Dydd yn Gerddoriaeth Newydd, y mae'n rhaid i gyfran sylweddol ohoni fod gan artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg yn y Deyrnas Unedig;
- 3.10.3 ym mhob Blwyddyn Ariannol, ei bod yn darlledu o leiaf 68 awr o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth newydd wedi'i recordio'n arbennig (gan eithrio ailddarllediadau);"
- 3.10.4 ym mhob Blwyddyn Ariannol, ei bod yn darlledu o leiaf 1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol. At ddiben y gofyniad hwn, ystyr "cerddoriaeth arbenigol" yw cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr, ac yn canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres; a
- 3.10.5 bod yr orsaf yn chwarae ystod ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy, gan gymryd i ystyriaeth y nifer o weithiau y chwaraeir cân a maint y rhestr chwarae, yn yr Oriau Gwranddo Brig ac yn ystod y Dydd."

Rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

A1.8 Rydym yn cynnig diwygio'r amodau rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau fel a ganlyn:

"4.31 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 4.31.1 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5,000 awr yn cael eu dyrannu i raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;
 - 4.31.2 bod y rhaglenni hynny'n cynnwys ystod addas o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);
 - 4.31.3 bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni a wneir yn y wlad neu'r rhanbarth y mae'r rhaglenni hynny i fod o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol iddi;
 - 4.31.4 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 200 awr o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni nad ydynt yn newyddion yn yr Oriau Gwyllo Brig; ac
 - 4.31.5 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 150 awr o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni nad ydynt yn newyddion ar adegau yn union cyn neu'n dilyn yr Oriau Gwyllo Brig.
- 4.32 Ym mhob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod yr amser a neilltuir i raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 4.31 yn

cynnwys o leiaf 3,900 awr o newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol i'w darlledu ar gyfnodau drwy gydol y dydd ar BBC One, y mae'n rhaid i o leiaf 1,700 awr ohonynt fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig.”

Gofynion tryloywder o ran rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

A1.9 Rydym yn cynnig diwygio'r gofynion tryloywder o ran rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau fel y nodir isod. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydym yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i amodau 4.67 a 4.69 a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin; mae'r rhain wedi'u cynnwys isod dim ond at ddiben helpu rhanddeiliaid i ddeall yn well y newidiadau arfaethedig i amod 4.68.

“4.67 Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi ei Chynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yn Yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhanbarthau Lloegr, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn honno o'i darpariaeth bresennol a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

4.68 Wrth gydymffurfio ag amod 4.67, mae'n rhaid i'r BBC gynnwys y canlynol:

- 4.68.1 ei chynlluniau mewn perthynas â phob un o **BBC iPlayer**, **BBC Sounds** a **Gwefan y BBC** i ddarparu cynnwys o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau;
- 4.68.2 ar gyfer yr holl amrywiadau o **BBC One** yn rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd, yr oriau o newyddion y mae'n bwriadu eu darparu;
- 4.68.3 ar gyfer pob un o'r canlynol: (i) holl amrywiadau **BBC One** ar gyfer rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd; (ii) **BBC Scotland**, (iii) **BBC One Scotland**, (iv) **BBC One Wales**, (v) **BBC Two Wales**, (vi) **BBC One Northern Ireland**, (vii) **BBC Two Northern Ireland** a (viii) **BBC iPlayer**, ei chynlluniau i ddarparu ystod o raglennu nad yw'n newyddion. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:
 - 4.68.3.1 oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;
 - 4.68.3.2 oriau arfaethedig o raglennu materion cyfoes;
 - 4.68.3.-23 oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;
 - 4.68.3.4 oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf; a
 - 4.68.3.5 rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

468.4 oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith a anelir yn benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.⁴¹

4.68.5 yn achos **BBC Alba** a **BBC iPlayer**, ei chynlluniau i ddarparu rhaglennu a anelir at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.5.1 oriau arfaethedig o raglenni a anelir at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg; ac

4.68.5.2 oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf a anelir at y rhai sy'n dysgu'r iaith Aeleg.

4.68.-6 ar gyfer pob un o **BBC Alba**, **BBC One Gogledd Iwerddon**, **BBC Two Gogledd Iwerddon** a **BBC iPlayer**, ei chynlluniau i ddarparu rhaglenni yn yr iaith frodorol. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.56.1 oriau arfaethedig o raglenni Gaeleg, Gwyddeleg ac Wlster-Scoteg; a

4.68.56.2 oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU a Ddarlledir am y Tro Cyntaf, o raglennu Gaeleg, Gwyddeleg ac Wlster-Scoteg.

4.69 Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol, adroddiad sy'n nodi a gymerwyd y camau a nodwyd ganddi o dan amodau 4.67 a 4.68 yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn berthnasol iddi, gan gynnwys a yw wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r cynlluniau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny."

⁴¹ Yn ymgynghoriad mis Mehefin cynigiwyd diffiniad o "Raglenni Rhwydwaith" fel a ganlyn: "raglenni a wneir i'w gwyllo ar unrhyw un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ar wahân i raglenni a wneir i'w gwyllo dim ond ar amrywiad o'r fath wasanaeth sy'n ymwneud ag un o'r canlynol: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth o Loegr".

A2. Fframwaith Cyfreithiol

- A2.1 Daw pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf)⁴², sy'n nodi at ddibenion cyflawni rheoleiddio o'r BBC y bydd gennym y cyfryw bwerau a dyletswyddau a allai gael eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)⁴³ a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC (y Cytundeb).⁴⁴
- A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 y Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.⁴⁵ Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebiadau, ac i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.
- A2.3 O dan y Siarter, mae'n ofynnol i Ofcom roi sylw, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC, i'r cyfryw o'r canlynol yr ymddengys i ni eu bod yn berthnasol o dan yr amgylchiadau:⁴⁶
- amcan y BBC i gyflawni ei chenhadaeth⁴⁷ a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus;
 - dymunoldeb diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a'r
 - gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i dyletswyddau cyffredinol.⁴⁸
- A2.4 O'r pum diben cyhoeddus⁴⁹, ystyriwn fod y canlynol yn arbennig o berthnasol i'r Cais:
- Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;
 - Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw; a
 - Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.

⁴² Adran 198 y Ddeddf.

⁴³ [Y Siarter](#).

⁴⁴ [Y Cytundeb](#).

⁴⁵ Erthygl 45(1) y Siarter.

⁴⁶ Erthygl 45(2) y Siarter.

⁴⁷ Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (erthygl 5 y Siarter).

⁴⁸ Nodir dyletswyddau cyffredinol y BBC yn Erthyglau 9 i 18 y Siarter ac maent yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y ddyletswydd i hyrwyddo arloesedd technolegol, gan gynnwys drwy ganolbwyntio ar arloesedd technolegol i gefnogi cyflwyniad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae'r Cytundeb hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau cyffredinol ar y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys, yng Nghymal 61, gofyniad i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau y gall gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr eraill (fel y bo'n berthnasol) gael mynediad at Wasanaethau Cyhoeddus y DU y'u bwriedir ar eu cyfer, neu elfennau o'u cynnwys, mewn ystod o ffyrdd cyfleus a chost effeithiol sydd ar gael neu a allai fod ar gael yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys (er enghraifft) darlledu, ffyrddio neu sicrhau bod cynnwys ar gael ar-alw, boed dros rwydweithiau daearol, lloeren, cebl neu fand eang (sefydlog neu ddi-wifr) neu drwy'r rhyngwyd.

⁴⁹ Erthygl 6 y Siarter.

- A2.5 Yn rhinwedd erthygl 20(3)(d) y Siarter, nodwn ei fod yn ofynnol i'r BBC osod mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo'n briodol) a chywain y fath wybodaeth ag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ⁵⁰ wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. ⁵¹
- A2.6 Ar wahân i hynny, yn rhinwedd erthygl 46(4) y Siarter, gall Ofcom bennu'r fath fesurau perfformiad (ymhellach i'r rhai a bennir gan y BBC), a chywain y fath wybodaeth ag sy'n angenrheidiol, er mwyn asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. ⁵² At hynny, gall Ofcom fynnu i'r BBC gywain y fath wybodaeth yr ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad. ⁵³
- A2.7 Yn ychwanegol at bennu mesurau perfformiad, mae'n ofynnol i ni bennu trwydded weithredu (y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys cyfres o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw. ⁵⁴ Mae'r Siarter yn nodi bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio yr ystyria Ofcom eu bod yn briodol wrth fynnu i'r BBC wneud y canlynol:
- a) cyflawni ei chenhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus;
 - b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
 - c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn cael eu gwasanaethu'n dda. ⁵⁵
- A2.8 Mae'r ddyletswydd i sicrhau darpariaeth gwasanaethau ac allbwn unigryw ⁵⁶ yn arbennig o berthnasol i'r newidiadau arfaethedig i amod cerddoriaeth fyw BBC Radio 2 a'r cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live. ⁵⁷
- A2.9 Mae Atodlen 2 y Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i Ofcom eu pennu drwy'r Drwydded Weithredu. Ymhlith pethau eraill, mae'n darparu:
- a) Y dylai Ofcom roi sylw penodol, wrth bennu'r amodau rheoleiddio, i'r angen i'r BBC sicrhau darpariaeth allbwn a gwasanaethau unigryw;

⁵⁰ Nodir Gwasanaethau Cyhoeddus DU y BBC mewn rhestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan y BBC: [Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU](#).

⁵¹ Cymal 14(1) y Cytundeb.

⁵² Cymal 14(2) y Cytundeb.

⁵³ Cymal 14(4) y Cytundeb.

⁵⁴ O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n ofynnol i Ofcom bennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

⁵⁵ Erthygl 46(3) y Siarter.

⁵⁶ Pwysleisir y ddyletswydd hon ym mharagraff 1(1) Atodlen 2 y Cytundeb, sy'n nodi "wrth bennu'r amodau rheoleiddio mae'n rhaid i Ofcom roi sylw penodol i'r angen i'r BBC sicrhau darparu allbwn a gwasanaethau unigryw".

⁵⁷ Mae hyn wedi'i gadarnhau gan baragraff 1(2) Atodlen 2 y Cytundeb, sy'n nodi i "allbwn a gwasanaethau unigryw" olygu "allbwn a gwasanaethau sydd, wrth eu hystyried yn eu cyfanrwydd, yn sylweddol wahanol i ddarparwyr cymaradwy eraill ar draws pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ystod yr oriau brig ac yn gyffredinol, ac ar y teledu, ar radio ac ar-lein, o ran-(a) y cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol; (b) ansawdd yr allbwn; (c) maint yr allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU; (d) lefelau cymryd risgiau, arloesedd, her ac uchelgais creadigol; ac (e) ystod y cynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu."

- b) Mewn perthynas â newyddion a materion cyfoes, mae'n rhaid i ni bennu gofynion, yn y Drwydded Weithredu, yr ystyriwn eu bod yn briodol ar gyfer sicrhau:
- i) rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU ⁵⁸ gan gynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes ar lefel briodol (fel y pennir gan Ofcom); a
 - ii) bod y rhaglenni newyddion a gynhwysir felly yn cael eu darlledu i'w gwyllo ar adegau drwy gydol y cyfnod y darperir Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU ar ei gyfer. ⁵⁹

- A2.10 Gallwn ddiwygio'r Drwydded Weithredu yn dilyn ymgynghoriad â'r BBC ac ag unrhyw berson yr ystyriwn ei fod yn briodol. Gwnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf ym mis Hydref 2017 ⁶⁰ ac mae wedi'i diwygio ychydig o weithiau ers 2017. ⁶¹
- A2.11 Yn ychwanegol at osod Trwydded Weithredu, mae'n ofynnol hefyd i ni gyhoeddi fframwaith gweithredu. ⁶² Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y Gweithdrefnau). ⁶³ sy'n esbonio sut yr ydym yn gosod ac yn gweinyddu cyfundrefn y Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn.
- A2.12 Mae'r Gweithdrefnau yn nodi ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth ddiwygio'r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau'r drwydded weithredu a dymunoldeb sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir a bod modd eu gorfodi mewn achosion o fethu â chydymffurfio. ⁶⁴ Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y Gweithdrefnau (ac yn cymhwysu'r ystyriaethau y mae'n eu rhestru) ynghyd ag egwyddorion ymgynghori Ofcom (gweler Atodiad 5).

⁵⁸ Mae Cymal 75 a rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb gyda'i gilydd yn diffinio 'Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU'. Mae CBeebies a CBBC wedi'u cynnwys yn y [rhestr o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU](#) a gyhoeddir gan y BBC.

⁵⁹ Paragraff 4(1) Atodlen 2 y Cytundeb.

⁶⁰ Ofcom, 2017 (wedi'i diweddarau 2019). [Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU](#).

⁶¹ Am newidiadau i'r Drwydded Weithredu gweler [tudalen we'r Fframwaith Gweithredu](#).

⁶² Gweler erthygl 46(2) y Siarter a Chymal 5(1) y Cytundeb.

⁶³ Ofcom, 2017. [Dwyn y BBC i gyfrif am gyflwyno i gynulleidfaoedd: Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu](#).

⁶⁴ [Y Gweithdrefnau](#), paragraffau 1.11 i 1.20.

A3. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Cyflwyniad

- A3.1 Yn unol â statud mae'n ofynnol i Ofcom asesu effaith bosib ein holl swyddogaethau, polisiau, prosiectau ac arferion ar y grwpiau cydraddoldeb a ganlyn: oedran, anabled, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.⁶⁵ Rydym yn cyfeirio at grwpiau o bobl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig hyn fel 'grwpiau cydraddoldeb'. Rydym yn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA), sy'n archwilio'r effaith bosib y mae ein polisi arfaethedig yn debygol o'i chael ar bobl, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae EIA hefyd yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr waeth beth fo'u cefndir a hunaniaeth.
- A3.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond cyflenwol o dan ddeddfwriaeth gydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sgrinio polisiau am eu heffaith ar gydraddoldeb cyfle a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodir ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Nodau ein hymgyngoriad

- A3.3 Mae'r ymgynghoriad yn nodi ein cynigion yn seiliedig ar y ceisiadau y mae'r BBC wedi'u gwneud am newidiadau i'r Drwydded Weithredu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg ochr yn ochr â'n hymgyngoriad ehangach ar ein hymagwedd arfaethedig at ddwyn y BBC i gyfrif am gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, a gosod amodau ar gyfer Trwydded Weithredu newydd. Credwn y bydd sicrhau darpariaeth Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC o dan y Drwydded hon yn creu buddion ar gyfer cynulleidfaoedd yn gyffredinol, ac yn benodol ar gyfer grwpiau cydraddoldeb.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- A3.4 Rydym wedi cynnal EIA ac yn nodi crynodeb o'n hasesiad isod. Yn gyntaf, rydym yn ystyried ein cynigion yn unol â'r tri maes o geisiadau gan y BBC ac yna'n ystyried ein dyletswyddau mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.
- A3.5 Mae'r gofyniad i'r BBC 'wasanaethu pob cynulleidfa' yn parhau'n ystyriaeth allweddol wrth osod y Drwydded Weithredu hon.⁶⁶ Mae'r newidiadau arfaethedig hyn i'r Drwydded y mae'r BBC wedi gofyn amdanynt yn gysylltiedig â chwotâu ar gyfer gwasanaethau a mathau penodol o raglennu. Felly, rydym o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r Drwydded yn berthnasol i ryw raddau i'r grwpiau cydraddoldeb ac yn benodol y gallent gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau amrywiaeth a ganlyn:

⁶⁵ Fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

⁶⁶ Cenhadaeth y BBC, fel y diffinnir yn y Siarter, yw "gweithredu er budd y cyhoedd, **gan wasanaethu pob cynulleidfa** trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn difyrru".

- a) Cynulleidfaoedd iau; a
- b) Dynion.

- A3.6 Credwn hefyd fod potensial na fydd rhai grwpiau cynulleidfaol penodol yn elwa o'r newidiadau, neu yn wir gael eu heffeithio'n negyddol ganddynt. Er enghraifft, gall cynulleidfaoedd hŷn a'r rhai sy'n llai cysylltiedig gael eu heffeithio gan symud at fwy o faterion cyfoes ar-lein.
- A3.7 Isod, rydym yn crynhoi'r tri maes o gynigion ar gyfer newidiadau i'r Drwydded Weithredu ac yn amlygu ble y credwn y ceir perthnasedd penodol i'r grwpiau cydraddoldeb hyn.

Newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live

- A3.8 Mae'r BBC wedi dadlau y bydd y cynigion sy'n effeithio ar gwotâu newyddion Radio 5 Live yn eu galluogi i ddarparu mwy o gynnwys, megis chwaraeon byw, sy'n apelio at gynulleidfaoedd sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn benodol, maent yn amlygu cynulleidfaoedd gwrywaidd iau a chynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol C2D. Maent wedi darparu data RAJAR sy'n awgrymu y bydd chwaraeon yn apelio mwy at y grwpiau hyn o'i gymharu â newyddion. Mae Ofcom wedi dweud yn ei [Hadroddiad Blynyddol ar y BBC 2022](#) y bu rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn llai bodlon yn gyson ar y BBC na chynulleidfaoedd eraill a'u bod yn llai tebygol o ddefnyddio ei gwasanaethau.
- A3.9 Ar hyn o bryd mae gan Radio 5 Live gynulleidfa sy'n gwyo'n hŷn, gydag oedran cyfartalog o 52.1 a 68% o'i chynulleidfa yn 45 oed a throsodd. Mae 70% o'i chynulleidfa yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 a 90% o'i chynulleidfa yn Wyn.⁶⁷
- A3.10 Fel y nodir uchod yn adran 3, credwn ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad y bydd cynnydd bach yn y ddarpariaeth chwaraeon yn gwella cyrhaeddiad ac yn cael effeithiau cadarnhaol ar gynulleidfaoedd gwrywaidd iau a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol C2D.

Cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2

- A3.11 Nid ydym o'r farn y bydd gan y cynnig cerddoriaeth fyw Radio 2 oblygiadau cydraddoldeb o dan Ddeddf 2010 neu Ddeddf 1998.

Rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol

- A3.12 Mae'n glir y bydd ceisiadau'r BBC am newidiadau i gwotâu sy'n ymwneud â rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol yn cael effaith ar gynulleidfaoedd sy'n byw yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn fwy na hynny, bydd angen i'w strategaeth gyffredinol i fod yn sefydliad 'Digidol yn Gyntaf' ystyried y rhai sy'n ddibynol ar wasanaethau llinol.
- A3.13 Mae'r BBC yn credu y bydd cynulleidfaoedd lleol yn elwa o'r cynigion hyn o ganlyniad i'r gwariant cynyddol ar gynnwys effaith sylweddol a darparu mwy o adnoddau ar gyfer

⁶⁷ RAJAR Ch3 2022

cynnwys lleol ar-lein, er y gallai fod pryder y caiff cynulleidfaoedd hŷn eu heffeithio'n negyddol os yw'n well ganddynt dderbyn eu newyddion o wasanaethau llinol traddodiadol. Bydd yn ofynnol o hyd i'r BBC ddarparu newyddion a materion cyfoes ar ei gwasanaethau darlledu er mwyn sicrhau y caiff pob cynulleidfa ei gwasanaethu'n dda (amodau arfaethedig 1.4-1.17) a fyddai'n gyfystyr â mesur diogelu pobl hŷn sydd o bosib yn ffafrio defnyddio gwasanaethau darlledu traddodiadol, neu bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd gartref.⁶⁸

- A3.14 I liniaru'r effaith ar gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau rydym wedi cynnig pennu gofynion tryloywder sy'n golygu y bydd angen i'r BBC ddarparu cynlluniau manwl ar gyfer pob gwlad a rhanbarth yn ei Chynllun Blynyddol (gweler adran 5). Byddwn yn adolygu eu cynlluniau a'u perfformiad, a byddwn yn barod i gamu i'r adwy os oes angen ac yn y pen draw, ailbennu cwotâu.

Gogledd Iwerddon

- A3.15 Mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn mynnu i'r BBC gynhyrchu amrywiaeth o raglenni ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr yng Ngogledd Iwerddon, ac i gynhyrchu rhaglenni yng Ngogledd Iwerddon a fydd yn cael eu darlledu ar draws y DU. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn newid yr hyn a gynigiwyd gennym yn ein [hymgyngoriad mis Mehefin](#), sef cadw'r gofynion hyn, gyda rhai diwygiadau i gydnabod newidiadau yn nhirwedd y cyfryngau ac arferion y gynulleidfa. Er enghraifft, caniatáu i'r cynnwys a ddarperir ar wasanaethau ar-lein y BBC gyfrif tuag at rai o'i chwotâu. Ar y sail hon, nid ydym yn credu y bydd ein hymagwedd bolisi'n cael effaith andwyol ar unrhyw un o gategoriâu cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Gan hynny, ein casgliad cychwynnol yw nad oes angen Asesiad Effaith Cydraddoldeb manylach mewn perthynas â Gogledd Iwerddon ar gyfer yr ymagweddau polisi a amlinellir yn y ddogfen hon.

⁶⁸ Nid oes gan 20% o'r rhai 65 oed a hŷn, a 14% o'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, fynediad i'r rhyngwrwyd gartref (Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau Ofcom 2021: arolwg omnibws CATI).

A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

- A4.1 Hoffai Ofcom dderbyn safbwyntiau a sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 18 Ionawr 2023.
- A4.2 Gallwch lawrlwytho'r ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-andstatements/category-3/bbcs-request-to-change-the-operating-licence>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A4.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu ei fod yn cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, anfonwch ef trwy e-bost i bbcoperatinglicencereview@ofcom.org.uk, fel atodiad yn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [daflen glawr](#).
- A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, wedi'u marcio â theitl yr ymgynghoriad:
- Tîm Polisi Cynnwys
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
- A4.5 Rydym yn croesawu ymatebion mewn fformatau heblaw print, er enghraifft recordiad sain neu fideo iaith Arwyddion Prydeinig. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Brydeinig:
- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Fformatau ffeil addas yw DVD, wmv neu QuickTime; neu
 - Uwchlwythwch fideo ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb yn uniongyrchol i YouTube (neu wefan letya arall) ac anfonwch y ddolen atom.
- A4.6 Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A4.7 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol). Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb anfonwyd atom trwy e-bost.
- A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad os nad oes barn gennych; mae ymateb byr ar un pwynt yn unig yn iawn. Rydym yn croesawu ymatebion ar y cyd hefyd.
- A4.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn Atodiad 7. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam mae gennych y safbwyntiau sydd gennych, a beth rydych chi'n ei gredu y byddai effaith cynigion Ofcom.
- A4.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch trwy e-bost yn bbcoperatinglicencereview@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A4.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn helpu pobl a sefydliadau sydd ag adnoddau cyfyngedig neu gyfarwydd-deb â'r materion i ymateb mewn ffordd fwy gwybodus. Felly, er tryloywder ac arfer rheoleiddio da, ac oherwydd i ni gredu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar [wefan Ofcom](#) yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori.
- A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.
- A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb gydag adran berthnasol Llywodraeth y DU cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Hon yw'r Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion yn ymwneud â'r post, a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.
- A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau Ofcom wedi'u hesbonio ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#).

Y camau nesaf

- A4.16 Gan ddilyn y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn 2023.
- A4.17 Os dymunwch, gallwch [gofrestru i dderbyn diweddariadau post](#) i'ch hysbysu am gyhoeddiadau newydd gan Ofcom.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A4.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 5.
- A4.19 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, gyrrwch e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A4.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA

E-bost: ysgrifennyddygorfforaeth@ofcom.org.uk

A5. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae gan Ofcom saith egwyddor y mae'n eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A5.1 Pryd bynnag y bo'n bosib, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i ddarganfod a ydym ar y trywydd iawn o ran ein ffordd o feddwl. Os na fydd gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i esbonio ein cynigion, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A5.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori mor fyr a syml â phosib, gyda throsolwg o ddwy dudalen ar y mwyaf. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A5.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A5.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A5.6 Os na fydd modd i ni ddilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn esbonio pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A5.7 Rydym yn credu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, felly rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A6. Taflen glawr yr ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim byd

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Bwriad Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori. Os yw eich ymateb yn anghyfrinachol (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), a bod yn well gennych i ni gyhoeddi eich ymateb dim ond ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi caled)

A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A7.1 Rydym yn gofyn am farn a thystiolaeth rhanddeiliaid ar y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo'n bosib.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno gydag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2, gan gynnwys y farn bod cerddoriaeth fyw newydd yn fwy gwerthfawr i gynulleidfaoedd nag ailddarllediadau? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo'n bosib.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer Rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo'n bosib.

Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynoded lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.